
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Fframwaith Gwydnwch Cymru

2025

**Gweithio mewn partneriaeth i gryfhau gwydnwch a pharodrwydd Cymru**



# Cynnwys


**Rhagair y Prif Weinidog** **5**

**Crynodeb Gweithredol** **7**

**Rhan Un: Y Cyd-destun** **12**

- Diben Fframwaith Gwydnwch Cymru 13
- Cyd-destun Strategol 13
- Strwythur Fframwaith Gwydnwch Cymru 13
  – Y Fframwaith Deddfwriaethol 15
  – Dyletswyddau ar Ymatebwyr 15
  – Rôl Gweinidogion Cymru 15
- Tystiolaeth sylfaenol 18
- Ar gyfer pwy mae'r Fframwaith hwn? 19

**Rhan Dau: Trefniadau Gwydnwch Presennol** **20**

- Deall Risg 21
- Cryfhau ein dull o reoli risg 23
- Paratoi a Chynllunio ar gyfer Argyfyngau 24
  – Gwella parodrwydd 26
- Capasiti a Gallu 26
  – Hyfforddiant ac Ymarfer 26
  – Gwella capasiti a gallu 27
- Rheoli Gwersi 27
  – Gwella dulliau o reoli gwersi 28


OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51600, ISBN digidol 978-1-83715-682-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

- Trefniadau Ymateb ac Adfer 28
  – Ymateb 28
  – Gwella Rheoli Argyfyngau 32
  – Adfer 32
  – Gwella'r gallu i adfer 33

**Rhan Tri: Fframwaith Gwydnwch Cymru 34**

- Ein Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol 35
- Ein gweledigaeth 35
  – Ein bwriad 35
  – Ein nodau 37
- Egwyddorion craidd y Fframwaith Gwydnwch 40
- Rheoli Risg yn Well 41
  – Cyfeiriad strategol 41
  – Dull deinamig o asesu risg 42
  – Blaenoriaethu a chysondeb 42
  – Ymrwymiadau hyd at 2030 a thu hwnt 42
- Arweinyddiaeth, Atebolrwydd, Llywodraethu a Sicrwydd Cryfach 43
  – Cyfeiriad strategol 43
  – Llywodraethu 45
  – Ymrwymiadau hyd at 2030 a thu hwnt 45
  – Arweinyddiaeth, Atebolrwydd a Sicrwydd 46
  – Ymrwymiadau hyd at 2030 a thu hwnt 47
- Bod yn fwy Parod a Galluog ac Ymateb yn Well 48
  – Cyfeiriad strategol 48
  – Parodrwydd 49
  – Gwydnwch a pharodrwydd y gymuned 49
  – Ymrwymiadau hyd at 2030 a thu hwnt 51
  – Gallu 53
  – Ymrwymiadau hyd at 2030 a thu hwnt 53
  – Ymateb 54
  – Adfer 56
  – Ymrwymiadau hyd at 2030 a thu hwnt 57
- Cyfathrebu ac Ymgysylltu'n well a bod yn fwy Tryloyw 58

Atodiad 1: Acronymau Saesneg cyffredin 60

Atodiad 2: Geirfa 61

Atodiad 3: Ymatebwyr Categori 1 a Chategori 2 yng Nghymru 69

Atodiad 4: Pwerau Argyfwng, y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 71

Atodiad 5: Systemau a phrosesau i gasglu gwersi 73

Atodiad 6: Rhaglen Rhyngweithredu’r Cydwasanaethau Brys (JESIP) 74

Atodiad 7: System Darlledu Rhybuddion 75

Atodiad 8: Trefniadau Llywodraethu Cymru Gyfan 76

Atodiad 9: Cofrestrau Risgiau Cymunedol 78

# Rhagair y Prif Weinidog



Rydym yn byw mewn cyfnod o ansicrwydd a heriau na welwyd mo'u tebyg o'r blaen. Wrth i ni barhau i adfer ar ôl un o'r pandemigau byd-eang mwyaf dinistriol yn hanes y ddynoliaeth, mae gwledydd ar draws y byd yn mynd i'r afael ag effeithiau dirywiol newid yn yr hinsawdd a dirywiad amgylcheddol. Mae llifogydd, cynnydd yn lefel y môr, tonnau gwres a thanau gwyllt yn effeithio ar lawer o ardaloedd yn y byd ac maent yn dod yn fwy cyffredin. Mae ansicrwydd a newid geo-wleidyddol ehangach yn arwain at heriau economaidd, argyfwng costau byw a risgiau diogelwch cenedlaethol hefyd. Nid yw Cymru yn ddiogel rhag yr heriau hyn o bell ffordd.

Prif gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw cadw pobl Cymru yn ddiogel. Mae paratoi ar gyfer argyfyngau yn gofyn am ddull gweithredu cymdeithas gyfan sy'n dwyn ynghyd alluoedd y llywodraeth, y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol, cymunedau a busnesau.

Mae **Fframwaith Gwydnwch Cymru** yn ail-gadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau risg ac effaith argyfyngau, ac i weithio mewn partneriaeth i gryfhau parodrwydd Cymru. Mae'r Fframwaith yn nodi gweledigaeth a disgwyliadau Llywodraeth Cymru a sut byddwn yn parhau i gynorthwyo ymatebwyr a Fforymau Gwydnwch Lleol.

Mae egwyddorion craidd y Fframwaith yn ymgorffori ein hymrwymiad i'r canlynol:

- defnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddeall y risgiau mae Cymru'n eu hwynebu;
- agwedd 'Tîm Cymru' a dull gweithredu 'Unwaith i Gymru' i atal risgiau rhag cael eu gwireddu ac i baratoi ar gyfer argyfyngau, sydd nid yn unig yn manteisio i'r eithaf ar bartneriaethau ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, ond sydd hefyd yn grymuso ein cymunedau a'r cyhoedd i fod yn fwy gwydn eu hunain;
- sicrhau bod trefniadau gwydnwch yn diwallu anghenion, blaenoriaethau a deddfwriaeth Cymru (fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol), eu bod yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau amrywiol a'u bod yn cyd-fynd â'n nodau hirdymor;
- cydnabod bod Cymru wydn yn golygu bod y Deyrnas Unedig yn fwy gwydn: mae ein hymdrechion ar y cyd yn rhan annatod o wydnwch cyffredinol a threfniadau diogelwch gwladol y Deyrnas Unedig; a
- gwelliant parhaus drwy ddysgu gwersi o'r gorffennol, drwy ddal gafael yn y gwersi a ddysgwyd a gweithredu argymhellion ymchwiliadau cyhoeddus.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymryd camau breision o ran cyflawni ein hymrwymiad i wella gwydnwch. Un o'r prif lwyddiannau oedd datblygu cofrestr risg argyfyngau sifil pwrpasol gyntaf Cymru. Mae'r gofrestr hon yn awr yn helpu i wella'r ffordd rydym yn rheoli risgiau, yn llywio polisïau'r llywodraeth ac yn helpu i bennu blaenoriaethau strategol ar gyfer gwaith gwydnwch. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym hefyd wedi cryfhau strwythurau llywodraethu gwydnwch Cymru a'i threfniadau rheoli argyfyngau, wedi miniogi ein dull o reoli gwersi, ac wedi darparu cyllid ar gyfer Fforymau Gwydnwch Lleol.

Drwy Fframwaith Gwydnwch Cymru, rydyn ni'n mabwysiadu dull 'cymdeithas gyfan' o leihau risg ac effeithiau argyfyngau, ac rydw i'n annog pawb i ddod yn gyfarwydd â'n dull gweithredu, a'n blaenoriaethau strategol.



**Eluned Morgan AS**
Prif Weinidog Cymru

# Crynodeb Gweithredol

Mae **Fframwaith Gwydnwch Cymru** yn nodi gweledigaeth, nodau a chanlyniadau cyffredin Llywodraeth Cymru i gryfhau gwydnwch a pharodrwydd Cymru. Mae'n darparu'r strategaeth gyffredinol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i leihau risg ac effaith argyfyngau a heriau sy'n tarfu'n ddirfawr. Mae'r **Cynllun Cyflawni** ategol, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Fframwaith hwn, yn nodi'r camau gweithredu penodol y byddwn ni a'r gymuned ymateb i argyfyngau yn eu cymryd i gyflawni ein nodau a'n canlyniadau.

**Ein gweledigaeth** yw bod meddylfryd gwydn yn cael ei ymgorffori ym mhob agwedd ar fywyd a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

**Ein bwriad:** Gan weithio ar draws y llywodraeth ac mewn partneriaeth agos â'r gymuned ymatebwyr a'r sector gwirfoddol, rhoi dull strategol ar waith i gryfhau gwydnwch a pharodrwydd Cymru i helpu i gadw ein dinasyddion yn ddiogel, a helpu i ddiogelu ein heconomi, ein hamgylchedd a'n seilwaith rhag effeithiau argyfyngau mawr a heriau aflonyddgar.

## Rhan Un – Y Cyd-destun

Mae Rhan Un yn disgrifio'r cyd-destun deddfwriaethol a rôl Llywodraeth Cymru, swyddogaethau Gweinidogion Cymru a dyletswyddau statudol ymatebwyr brys i baratoi ar gyfer argyfyngau.

Mae'r adran hon hefyd yn cyflwyno'r amrywiaeth o dystiolaeth a ddefnyddir i siapio'r dull gweithredu, yr amcanion a'r egwyddorion craidd nodir yn y Fframwaith, ac i lywio'r blaenoriaethau strategol a nodir yn Rhan Tri.

## Rhan Dau – Trefniadau Gwydnwch Presennol

Mae Rhan Dau yn rhoi trosolwg o'r strwythurau gwydnwch presennol yng Nghymru, a'r meysydd hynny rydym o'r farn y gellid eu gwella i gryfhau ein systemau, ein dull o reoli risg a'n galluoedd ymateb ac adfer. Fel rhan o'r Fframwaith, rydym wedi cynnwys gwelliannau mae Llywodraeth Cymru a'r gymuned ymatebwyr wedi eu sicrhau dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys gwersi a ddysgwyd o'r gorffennol ac o argymhellion a wnaed drwy ymchwiliadau cyhoeddus perthnasol.

## Rhan Tri – Fframwaith Gwydnwch Cymru

Mae Rhan Tri yn nodi'r fframwaith strategol gan gynnwys y trefniadau goruchwylio a chydlynu ar gyfer cyflawni blaenoriaethau a chanlyniadau.

Mae'r Fframwaith, sy'n seiliedig ar werthoedd Cymru o ran cymuned, llesiant, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol a phartneriaeth, yn cadarnhau pedwar amcan strategol allweddol sy'n gwella gwydnwch. Mae pob un o'r rhain yn cynnwys canlyniadau penodol i gryfhau gallu Cymru o ran parodrwydd ac ymateb ac adfer:

## 1. Rheoli Risg yn Well

Mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu a chynnal sylfaen dystiolaeth gadarn i sicrhau bod gennym ddealltwriaeth gyffredin a chynhwysfawr o'r risgiau presennol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg mewn argyfyngau sifil posibl. Mae'r amcan hwn yn pwysleisio pwysigrwydd defnyddio data o ffynonellau dibynadwy ac arbenigol i helpu i wreiddio risg yn y broses o wneud penderfyniadau ac i gefnogi gwell cynllunio ar gyfer argyfyngau, rheoli argyfyngau ac ymateb ar bob lefel a gwaith adfer. Mae'r camau gweithredu'n cynnwys creu cofrestr risg wedi ei dosbarthu ar gyfer ymatebwyr y llywodraeth ac ymatebwyr brys, datblygu gwybodaeth risg ar gyfer y cyhoedd a mabwysiadu dull deinamig o asesu risg.

## 2. Cryfhau Arweinyddiaeth, Llywodraethu a Sicrwydd

Rydym yn cydnabod bod arweinyddiaeth effeithiol ac eglurder rolau a chyfrifoldebau yn hanfodol ar gyfer gwydnwch. Nod yr amcan hwn yw sicrhau arweinyddiaeth gref a goruchwyliaeth gadarn ar gyfer yr holl waith gwydnwch, pennu cyfeiriad a blaenoriaethau strategol, a sicrhau bod gennym systemau effeithlon ac effeithiol ar waith i gefnogi ymatebwyr Categori 1 a 2 i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Mae'r amcan hwn yn cynnwys camau gweithredu ar sefydlu fframwaith ar gyfer safonau sicrwydd argyfyngau sifil, datblygu canllawiau arweinyddiaeth cydlynol, ac ymrwymiadau ar wella tryloywder ac adrodd ar gyflwr gwydnwch i'r Senedd.

## 3. Bod yn fwy Parod a Galluog ac Ymateb yn Well

Mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar gynorthwyo gwaith trawslywodraethol ac ymatebwyr brys, gan sicrhau bod y rhai sy'n gweithio yn y maes hwn yn meddu ar y sgiliau a'r hyfforddiant i gyflawni eu cyfrifoldebau a grymuso cymunedau i feithrin eu gwydnwch. Mae'n cynnwys camau gweithredu fel adolygu *Rheoliadau 2005 Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 (Cynllunio wrth gefn Sifil) (Rheoliadau 2005)*, datblygu Fframwaith Gwydnwch Cymunedol, a sefydlu rhaglen parodrwydd a gallu ar gyfer Cymru gyfan.

Prif nod yr amcan hwn yw sicrhau bod y galluoedd adfer, ymateb a chynlluniau angenrheidiol ar waith, a'u bod yn cael eu siapio gan wersi o'r gorffennol ac yn cael eu profi drwy hyfforddiant ac ymarfer yn rheolaidd.

## 4. Cyfathrebu ac Ymgysylltu'n well a bod yn fwy Tryloyw

Rydym yn cydnabod bod cyfathrebu effeithiol yn hanfodol ar gyfer pob agwedd ar wydnwch: deall risg, cynllunio ar gyfer argyfyngau, meithrin gallu, ymateb ac adferiad. Nod yr amcan hwn yw sicrhau bod gan bob rhan o gymdeithas gyd-ddealltwriaeth a mwy o ymwybyddiaeth o'r risgiau sy'n ein hwynebu a'r trefniadau i reoli'r risgiau hynny. Mae'n cynnwys camau gweithredu fel mireinio cynlluniau cyfathrebu ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau, sefydlu llwyfan pwrpasol ar gyfer gwybodaeth i'r cyhoedd am argyfyngau sifil posibl, a chyflwyno datganiad blynyddol i'r Senedd am risgiau argyfyngau sifil a gwydnwch. Ein nod yw cynyddu atebolrwydd cyhoeddus ar reoli risg a meithrin hyder y cyhoedd drwy'r camau gweithredu mae Llywodraeth Cymru ac ymatebwyr brys yn eu cymryd i gadw pobl Cymru'n ddiogel.

Mae Cynllun Cyflawni yn cyd-fynd â'r Fframwaith, (mae crynodeb lefel uchel o hwn dros y dudalen) sy'n nodi camau gweithredu a gweithgareddau blaenoriaeth yn cael eu cyflwyno'n raddol er mwyn helpu i sicrhau ein nodau a'n canlyniadau strategol.


TÂN
FIRE
TÂN
FIRE

# Crynodeb lefel uchel o'r Cynllun Cyflawni

## AMCAN: Rheoli Risg yn Well

**Byr**

- Parhau i gynhyrchu rhagolygon wedi eu dosbarthu bob chwe mis.
- Parhau i gynhyrchu crynodeb risg misol wedi ei ddosbarthu.
- Parhau i asesu risg a diweddaru'r gofrestr risg wedi ei dosbarthu.
- Sbarduno blaenoriaethu ar alluoedd parodrwydd, ymateb ac adfer o'r sylfaen dystiolaeth risg.
- Parhau i hyrwyddo a datblygu dulliau cyson o asesu risg ar lefel Fforymau Gwydnwch Lleol yn seiliedig ar y gofrestr risg.
- Gweithio'n agos gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar ddatblygiadau cyfredol ac yn y dyfodol i'r Asesiad Risg Diogelwch Gwladol (NSRA) dynodedig a'i fethodoleg.

**Canolig**

- Parhau i gynhyrchu rhagolygon gwydnwch safonol bob chwe mis.
- Parhau i asesu a diweddaru'r gofrestr risg wedi ei dosbarthu.
- Datblygu swyddogaethau systemau data i wella gwybodaeth ac asesiadau pobl agored i niwed.
- Gweithio'n agos gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar ddatblygiadau cyfredol ac yn y dyfodol i'r Asesiad Risg Diogelwch Cenedlaethol yn y Deyrnas Unedig a'i fethodoleg.

**Yr hirdymor**

- Parhau i gynhyrchu rhagolygon bob chwe mis.
- Parhau i asesu a diweddaru'r gofrestr risg ddobarthiadol.
- Gweithio'n agos gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar ddatblygiadau cyfredol ac yn y dyfodol i'r Asesiad Risg Diogelwch Gwladol (NSRA) dynodedig a'i fethodoleg.

## AMCAN: Cryfhau Arweinyddiaeth, Llywodraethu a Sicrwydd

**Byr**

- Dechrau trefniadau llywodraethu newydd ar gyfer Cymru gyfan gan gynnwys sefydlu is-grwpiau a grwpiau Gorchwyl a Gorffen.
- Cynnal cymorth pwrpasol i bob Fforwm Adfywio Lleol drwy Swyddogion Cyswllt Llywodraeth Cymru (a Dirprwyon).
- Adeiladu ar ein hegwyddor '*Unwaith i Gymru*' i sicrhau bod pawb yn gweithio tuag at amcanion cyson.
- Parhau i hyrwyddo a datblygu dulliau cyson o ymdrin â chynllunio busnes ac adrodd blynyddol ar draws Fforymau Lleol Cymru, yn seiliedig ar ein hegwyddor '*Unwaith i Gymru*'.
- Cyflwyno 'Adroddiadau Blynyddol Fforymau Gwydnwch Lleol' ar wydnwch lleol i Brif Weinidog Cymru.
- Parhau i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i ddatblygu a gweithredu dulliau newydd ar lefel y Deyrnas Unedig lle bo hynny'n briodol.

**Canolig**

- Hyrwyddo dulliau llywodraethu cyson ar draws y pedwar Fforwm a darparu eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau cadeiryddion y Fforymau Lleol.
- Parhau i nodi cyfleoedd i sicrhau'r effeithlonrwydd gorau posibl a gwella sicrwydd drwy ddefnyddio dulliau cyson ac integredig o gynllunio a pharatoi, sy'n cael eu cefnogi drwy rannu arferion gorau ac adnoddau.
- Cynnal cymorth pwrpasol i bob Fforwm Adfywio Lleol drwy Swyddogion Cyswllt Llywodraeth Cymru (a Dirprwyon).
- Parhau i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i ddatblygu a gweithredu dulliau newydd ar lefel y Deyrnas Unedig lle bo hynny'n briodol.
- Asesu cynnydd y cynllun cyflawni yn rheolaidd.
- Adolygu strwythurau llywodraethu i sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu'r sicrwydd a'r atebolrwydd angenrheidiol.
- Pwyso a mesur y cynllun cyflawni i fesur gweithrediad blaenoriaethau'r Fframwaith.

**Yr hirdymor**

- Cynnal cymorth pwrpasol i bob Fforwm Adfywio Lleol drwy Swyddogion Cyswllt Llywodraeth Cymru (a Dirprwyon).
- Cynhyrchu Cynllun Cyflawni wedi ei ddiweddaru.

## AMCAN: Bod yn fwy Parod a Galluog ac Ymateb yn Well

**Byr**

- Cwmpasu dewisiadau i wella a chynnal darpariaeth cyllid i ategu gwaith cydlynu aml-asiantaeth/y Fforymau Gwydnwch Lleol.
- Sefydlu fframwaith ôl-drafodaeth cyson ar gyfer Cymru, sy'n cyd-fynd â'r gofrestr o wersi a nodwyd ledled Cymru.
- Adolygu a datblygu Cynllun Ymateb Cymru Gyfan.
- Hwyluso'r gwaith o rannu arferion gorau ar brosesau rheoli argyfwng rhwng ymatebwyr Categori 1 a 2 a phartneriaid yn y Fforymau Lleol.
- Pob partner i adolygu a gwella hyfforddiant ar gyfer cynrychiolwyr sefydliadol ar Grwpiau Cydgysylltu Strategol (Aur Cymru) ac ar Grwpiau Strategol Tactegol (Arian Cymru), gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer cadeiryddion y Grwpiau Cydgysylltu Strategol.
- Cwmpasu ac adolygu'r gofyniad canllawiau statudol ac anstatudol presennol.
- Gweithio gyda phartneriaid yn y Fforymau Lleol a'r trydydd sector i ddatblygu canllawiau adfer priodol, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.

**Canolig**

- Adolygu Rheoliadau 2005 Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 (Cynllunio wrth gefn Sifil) mewn perthynas â Chymru, a lle bo'n briodol, cyflwyno Rheoliadau newydd sy'n benodol i Gymru.
- Datblygu canllawiau priodol, i sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn darparu'r cymorth angenrheidiol a'r arweiniad sydd ei angen ar y gymuned argyfyngau sifil posibl i gyflawni eu swyddogaethau'n effeithiol.
- Drwy weithio mewn partneriaeth, gwella'r ymagwedd at wydnwch cymunedol yng Nghymru drwy ddatblygu Fframwaith Gwydnwch Cymunedol.
- Datblygu cofrestr adnabod gwersi newydd ar gyfer Cymru gyfan sy'n darparu tystiolaeth glir y gellir ei harchwilio ar draws y pedwar Fforwm Gwydnwch Lleol i ddangos sut mae gwersi wedi cael eu dysgu a sut a ble maent wedi cael eu defnyddio.
- Hyrwyddo trefniadau addas ar gyfer archwilio effeithiolrwydd, amlder ac ansawdd hyfforddiant ac ymarfer yn annibynnol ac yn rheolaidd.
- Cymryd rhan mewn gwaith rhannu arferion gorau, canllawiau a gwersi a ddysgwyd drwy sefydliadau allweddol fel Academi Gwydnwch y Deyrnas Unedig.
- Gweithio ar y cyd i adolygu'r strwythurau rheoli argyfwng presennol i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol a'u bod yn parhau i wneud hynny.
- Gweithio ar y cyd i adolygu'r strwythurau adfer presennol i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol a'u bod yn parhau i wneud hynny.

**Yr hirdymor**

- Datblygu prosbectws dysgu a datblygu i Gymru ar gyfer argyfyngau sifil posibl.
- Drwy gydweithio, cynnal dadansoddiad o wydnwch cymunedol i asesu problemau a phennu blaenoriaethau tymor byr, tymor canolig a thymor hir.
- Drwy weithio mewn partneriaeth, gwella dulliau o ymdrin â gwydnwch cymunedol yng Nghymru drwy ddatblygu Fframwaith Gwydnwch Cymunedol.

## AMCAN: Cyfathrebu ac Ymgysylltu'n well a bod yn fwy Tryloyw

**Byr**

- Cyflwyno datganiad blynyddol i'r Senedd ar wydnwch a risgiau argyfyngau sifil.
- Cyhoeddi gwybodaeth gyhoeddus am risgiau argyfyngau sifil posibl.
- Galluogi dulliau cyson o adolygu a diweddaru Cofrestrau Risg Cymunedol.
- Parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar y gwelliannau parhaus o ran defnyddio'r protocol Rhybuddion Argyfwng yng Nghymru.

**Canolig**

- Cyflwyno Adroddiad Cyflwr Gwydnwch yn y Senedd bob 4 blynedd.
- Cryfhau'r gofynion o ran cynhyrchu Cofrestrau Risgiau Cymunedol i sicrhau eu bod yn cynnwys demograffeg gymunedol ac yn teilwra dulliau cyfathrebu ar gyfer risgiau i boblogaethau lleol.
- Gweithio ar y cyd â'n partneriaid sy'n ymatebwyr i ddatblygu cynllun cyfathrebu ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau Cymru gyfan.
- Edrych ar opsiynau i gyflawni'r amcanion cyfathrebu a ganlyn: rhoi gwybod i bobl yng Nghymru am y risgiau rydym yn eu hwynebu; annog pobl i weithredu ac ymddwyn mewn ffordd sydd ei angen i baratoi eu hunain a'u cymunedau; a meithrin dealltwriaeth y cyhoedd o'r camau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i baratoi ar gyfer argyfyngau.

**Yr hirdymor**

- Edrych ar wahanol ddewisiadau o ran cyfrwng ar gyfer arolwg blynyddol o ganfyddiadau'r cyhoedd o risg, gwydnwch a pharodrwydd Cymru.

# **Rhan Un:** Y Cyd-destun



# Diben Fframwaith Gwydnwch Cymru

1.1 Pwrpas y ddogfen hon yw nodi'r weledigaeth, yr egwyddorion craidd, y dull strategol, y blaenoriaethau a'r canlyniadau ar gyfer gwella gwydnwch Cymru. Mae'n nodi'r trefniadau ar gyfer rheoli risg yn effeithiol a pharodrwydd ar gyfer argyfyngau, meithrin gallu, ymateb ac adferiad ar ôl argyfyngau a her aflonyddgar. Mae'r Fframwaith yn cyd-fynd â gofynion Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ac fe'i cynhyrchwyd mewn ymgynghoriad ag ymatebwyr brys yng Nghymru. Mae'n defnyddio arferion da a gwersi a ddysgwyd o argyfyngau diweddar a chanfyddiadau ymchwiliadau cyhoeddus.

# Cyd-destun Strategol

1.2 Rydym yn byw mewn cymdeithas gymhleth a rhyngddibynnol, gyda heriau digyffelyb sy'n esblygu ac sydd â'r potensial i fygwth ein ffordd o fyw a'n llesiant. Mae'r pandemig, ymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd, ac effeithiau tywydd eithafol a llifogydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf i gyd wedi dangos yr angen am reoli risg yn effeithiol, cynllunio ar gyfer argyfyngau, a gwerth trefniadau ymateb cadarn i argyfyngau. Mae tensiynau geo-wleidyddol ac ansicrwydd economaidd sy'n dwysáu, bygythiadau terfysgaeth a seiberddiogelwch, risgiau iechyd y cyhoedd, anifeiliaid a phlanhigion sy'n esblygu, ynghyd ag effeithiau diraddiad amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd, yn atgyfnerthu'r angen hwn.

1.3 Gwydnwch yw'r gallu i ragweld a gwrthsefyll digwyddiadau aflonyddgar, lleihau effeithiau niweidiol, ymateb yn effeithiol, cynnal neu adfer swyddogaethau, ac addasu mewn ffordd sy'n galluogi dysgu gwersi i wella galluoedd i ymateb i amrywiaeth o amodau posibl yn y dyfodol. Mae'n allweddol o ran helpu i fynd i'r afael â'r risgiau hysbys ac ansicr.

1.4 Mae ein strwythurau cynllunio ac ymateb i argyfwng, dro ar ôl tro, wedi llwyddo i ddiogelu pobl Cymru. Fodd bynnag, o ystyried yr amrywiaeth o ddigwyddiadau sy'n gorgyffwrdd ac yn cydredeg rydym wedi delio â nhw dros y blynyddoedd diwethaf, rhaid cydnabod bod gwydnwch Cymru yn cael ei brofi'n gyson. Mae cynnal ein gwydnwch a'n parodrwydd yn dod yn fwy heriol a chymhleth yn y cyfnod ansicr hwn, ac mae'n hanfodol bod y strwythurau sydd gennym ar waith i gefnogi ein gallu i ymateb yn addas i'r diben. Mae Llywodraeth Cymru a'r gymuned o ymatebwyr yn cydweithio i asesu effeithiau posibl risgiau sy'n esblygu, gan gynnwys pwysau ar draws y sector cyhoeddus a thu hwnt. Rhaid i'n trefniadau gwydnwch adlewyrchu'r dirwedd hon sy'n newid, fel ein bod ni'n barod i wynebu heriau newydd.

# Strwythur Fframwaith Gwydnwch Cymru

1.5 Mae Fframwaith Gwydnwch Cymru wedi ei rannu'n dair rhan:

- **Rhan 1 – y cyd-destun strategol**
- **Rhan 2 – y trefniadau gwydnwch presennol,** a
- **Rhan 3 – y cyfeiriad strategol a'r blaenoriaethau.**

1.6 Mae'r Fframwaith yn cael ei ategu gan Gynllun Cyflawni, sydd wedi cael ei ddatblygu ar y cyd â'r gymuned ymateb i argyfyngau i nodi'r camau gweithredu blaenoriaeth y byddwn ni a'n partneriaid yn eu cymryd i gyflawni'r blaenoriaethau strategol hyn.

1.7 Yn Rhan 1, rydym yn amlinellu'r dirwedd ddeddfwriaethol argyfyngau sifil a swyddogaethau cysylltiedig Gweinidogion Cymru. Mae'r adran hon hefyd yn cyflwyno'r amrywiaeth o dystiolaeth a ddefnyddir i siapio'r dull gweithredu, yr amcanion a'r egwyddorion craidd a nodir yn y Fframwaith, ac i lywio'r blaenoriaethau strategol a nodir yn Rhan 3. Mae hyn yn cynnwys argymhellion a wnaed mewn ymchwiliadau cyhoeddus diweddar a chanfyddiadau adolygiadau a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru.

1.8 Yn Rhan 2 rydym yn rhoi trosolwg o'r strwythurau gwydnwch presennol, a lle rydym o'r farn y gellid gwneud gwelliannau i gryfhau ein systemau a'n gallu i ymateb i risgiau. Fel rhan o'r Fframwaith, rydym wedi cynnwys y gwelliannau mae Llywodraeth Cymru a phartneriaid wedi eu cyflwyno yn ystod y blynyddoedd diwethaf – er enghraifft, datblygu ein sylfaen dystiolaeth newydd ar gyfer risg.


1.9 Mae Rhan 3 yn nodi ein blaenoriaethau strategol i gryfhau gwydnwch, gan ddefnyddio tystiolaeth o adrannau Llywodraeth Cymru, Fforwm Gwydnwch Cymru, Partneriaeth Gwydnwch Cymru, a'i Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Lywodraethu, ac ymgynghoriadau â'r Deyrnas Unedig a llywodraethau datganoledig eraill.

Mae'r adran hon yn cadarnhau ein cyfeiriad strategol ar gyfer rheoli risg, parodrwydd, meithrin gallu a rheoli argyfyngau mewn pedwar maes strategol:

- rheoli risg yn well,
- cryfhau arweinyddiaeth, llywodraethu a sicrwydd,
- bod yn fwy parod a galluog ac ymateb yn well, a
- cyfathrebu ac ymgysylltu'n well a bod yn fwy tryloyw.

1.10 Mae Rhan 3 'r Fframwaith yn cael ei hategu gan Gynllun Cyflawni ar wahân, sy'n cadarnhau amserlenni ar gyfer cyflawni a'r sefydliadau sy'n ymwneud â bwrw ymlaen â'r camau gweithredu hyn.

## Ffigur 1. Hierarchaeth deddfwriaeth a Fframwaith Gwydnwch Cymru



### Y Gyfraith

**Deddf Argyfyngau Sifil 2004**
(a chanllawiau statudol ac anstatudol ategol)

### Ymagwedd strategol a blaenoriaethau cenedlaethol

**Fframwaith Gwydnwch Cymru a'r Cynllun Cyflawni**

### Sybsidiaredd

Cynllunio ar lefel adrannau Llywodraeth Cymru, ymatebwyr argyfyngau statudol, y trydydd sector ac aml-asiantaethol
(drwy Fforymau Gwydnwch Lleol Cymru)

## Y Fframwaith Deddfwriaethol

1.11 Mae ***Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004***[1] yn nodi'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer parodrwydd ar gyfer argyfyngau yn y Deyrnas Unedig. Ategir y Ddeddf gan *Reoliadau Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 (Cynllunio Wrth Gefn Sifil) 2005* ('y Rheoliadau'). Mae'r Ddeddf yn diffinio beth yw argyfwng, yn creu'r amodau ar gyfer gwaith aml-asiantaeth ar lefel leol ac yn darparu pwerau brys i lunio deddfwriaeth arbennig dros dro yn yr argyfyngau mwyaf difrifol.

1.12 Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn darparu ar gyfer trefniadau lleol ar gyfer amddiffyn sifil, sefydlu fframwaith statudol o rolau a chyfrifoldebau ar gyfer ymatebwyr lleol, gan ddarparu strwythur a chysondeb ar gyfer gweithgarwch parodrwydd am argyfwng. Er bod y dyletswyddau amddiffyn sifil wedi eu darparu ar wyneb y Ddeddf, mae manylion yr hyn mae'r dyletswyddau hynny'n ei olygu, a sut dylid eu cyflawni, yn cael eu darparu drwy'r Rheoliadau.

1.13 Mae'r ddeddfwriaeth yn amlinellu'r sefydliadau allweddol sy'n gyfrifol am sicrhau bod argyfyngau'n cael eu rheoli'n effeithiol yng Nghymru. Cyfeirir at y rhain fel ymatebwyr Categori 1 a Chategori 2 (**gweler Atodiad 3**).

1.14 Mae Rhan 2 o'r Ddeddf, sy'n fater a gedwir yn ôl i weinidogion y Deyrnas Unedig, yn galluogi gwneud deddfwriaeth arbennig dros dro (rheoliadau argyfwng) i helpu i ddelio â'r argyfyngau mwyaf difrifol. Dewis olaf yw defnyddio pwerau brys ac ni ddylai'r trefniadau cynllunio ar lefel leol gymryd yn ganiataol y bydd pwerau argyfwng ar gael (**gweler Atodiad 4**).

## Dyletswyddau ar Ymatebwyr

1.15 Mae'r Ddeddf yn gosod rhwymedigaethau statudol ar ymatebwyr Categori 1. Dyma ddyletswyddau:

- **Asesu'r risg o argyfyngau'n digwydd a defnyddio hyn i lywio cynlluniau wrth gefn.**
- **Rhoi cynlluniau argyfwng ar waith.**
- **Rhoi trefniadau rheoli parhad busnes ar waith.**
- **Rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd am faterion sy'n ymwneud â diogelwch sifil a chynnal trefniadau i rybuddio, hysbysu a chynghori'r cyhoedd os bydd argyfwng.**
- **Rhannu gwybodaeth ag ymatebwyr lleol eraill i wella cydlyniad.**
- **Cydweithredu ag ymatebwyr lleol eraill i wella cydlyniad ac effeithlonrwydd.**
- **Rhoi cyngor a chymorth i fusnesau a mudiadau gwirfoddol ynghylch rheoli parhad busnes (awdurdodau lleol yn unig).**

1.16 Y gofynion deddfwriaethol allweddol ar gyfer ymatebwyr Categori 2 yw cydweithredu ag ymatebwyr Categori 1 mewn cysylltiad â chyflawni eu dyletswyddau, gan gynnwys rhannu gwybodaeth yn briodol.

## Rôl Gweinidogion Cymru

1.17 Mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau o dan Ran 1 o'r Ddeddf[2] mewn perthynas â meysydd datganoledig (fel iechyd, yr amgylchedd, iechyd a lles anifeiliaid, trafnidiaeth a thai) a chyrff ymatebwyr datganoledig mewn perthynas â Chymru. Mae ymatebwyr Categori 1 a 2 yng Nghymru ar gael yn Atodiad 3. Mae goruchwylio gwydnwch yng Nghymru yn cynnwys cymysgedd o gymwyseddau cyfunol, gyda meysydd fel plismona yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

1 Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 (legislation.gov.uk)
2 Fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018.

1.18 Mae pwerau Gweinidogion Cymru yn cynnwys:

a) cyflwyno is-ddeddfwriaeth[3] i gynorthwyo ymatebwyr o ran sut maent yn cyflawni eu swyddogaethau Rhan 1,

b) cyhoeddi canllawiau sy'n gysylltiedig â rheoliadau,

c) gwneud Gorchmynion neu gyfarwyddiadau mewn perthynas â dyletswyddau argyfwng sifil,

d) monitro cydymffurfedd â dyletswyddau ymatebwyr Categori 1 a 2 (gan gydnabod nad yw'r cyfrifoldeb dros blismona ac Achubwyr y Glannau wedi ei ddatganoli), ac

e) gorfodi dyletswyddau ymatebwyr datganoledig Cymru o dan Ran 1 o'r Ddeddf.

1.19 Wrth arfer y swyddogaethau hyn, mae Gweinidogion Cymru yn pennu cyfeiriad a darpariaeth argyfyngau sifil posibl yng Nghymru. Mae hyn nid yn unig yn cynnwys datblygu polisi, sy'n fwy priodol i Gymru ond hefyd gallu darparu mwy o gefnogaeth i'r gwasanaethau a'r asiantaethau datganoledig sy'n cyflawni'r swyddogaethau hynny.

1.20 Cafodd swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan Ran 1 o'r Ddeddf eu dwyn o fewn datganoli gweithredol yn 2018 drwy *Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018*. Cyn hynny roedd swyddogaethau mewn perthynas â Chymru yn nwylo Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

1.21 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn dal i gadw swyddogaethau yng Nghymru ar gyfer meysydd a gedwir yn ôl (fel telegyfathrebiadau, yr heddlu, troseddu a'r drefn gyhoeddus, diogelwch cenedlaethol a chyflenwad ynni). Fodd bynnag, gan fod effeithiau unrhyw ddigwyddiad sy'n ymwneud â materion a gedwir yn ôl yn debygol iawn o effeithio ar swyddogaethau a gwasanaethau sydd wedi eu datganoli i Gymru, fel iechyd, yr amgylchedd, cymunedau neu wasanaethau tân ac achub, mae'n bwysig ein bod ni'n gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig ar gyfer rheoli risg, cynllunio ac ymateb i argyfyngau.

1.22 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi'r disgwyliad i gyrff cyhoeddus feddwl mwy am y tymor hir, a sut gallwn ni weithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'n gilydd i atal problemau a defnyddio dull gweithredu mwy cydgysylltiedig. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi 7 nod llesiant ar waith, gan gynnwys creu Cymru wydn a Chymru o gymunedau cydlynus. Y nod cyffredinol yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol, a diwylliannol Cymru.

1.23 Mae cyfuno'r swyddogaethau o dan ran 1 y Ddeddf â'r nodau llesiant yn creu safbwynt pwerus i fwrw ymlaen â pholisi gwydnwch yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adeiladu a chynnal partneriaethau cryf ar draws ein cymuned argyfyngau sifil posibl. Gwyddom o brofiad mai'r ffordd orau o wneud hyn yw drwy gydweithio â'n Fforymau Lleol Cymru, ein hymatebwyr Categori 1 a 2 a'n sector gwirfoddol.

1.24 Hwn fydd y fframwaith gwydnwch cyntaf i Gymru. Mae wedi cael ei pharatoi gan yr Is-adran Gwydnwch a Diogelwch Gwladol (**gweler Blwch 1**). Wrth baratoi'r ddogfen hon, rydym wedi defnyddio sylfaen dystiolaeth eang i ategu ein camau nesaf o ran gwella parodrwydd, cynllunio ac ymateb yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o strwythurau a phrosesau gwydnwch, ond mae ein syniadau hefyd wedi cael eu dylanwadu gan ddefnyddio'r gwersi a nodwyd o ddigwyddiadau diweddar a thrychinebau cyhoeddus ac ymchwiliadau cysylltiedig, gan gynnwys pandemig COVID-19, bomio Arena Manceinion a Thŵr Grenfell yn 2017.

3 Ar ôl ymgynghori â Gweinidogion y Goron.

Blwch 1.

## Yr Is-adran Gwydnwch a Diogelwch Gwladol (NSRD)

**Cenhadaeth NSRD:** Cadw pobl Cymru yn ddiogel rhag effeithiau argyfyngau mawr a heriau aflonyddgar.

Fel rhan o'r Gyfarwyddiaeth Risg, Gwydnwch a Diogelwch Cymunedol yn Llywodraeth Cymru, mae'r Is-adran Diogelwch a Gwydnwch Genedlaethol yn darparu cyngor a chymorth arbenigol i weinidogion ac adrannau Llywodraeth Cymru ar reoli risg, paratoi ar gyfer argyfyngau, rheoli argyfyngau, diogelwch cenedlaethol a seibergadernid fel y maent yn berthnasol i Gymru a swyddogaethau datganoledig.

Mae'r Is-adran yn canolbwyntio ar leihau risg ac effaith argyfyngau a heriau aflonyddgar drwy weithio mewn partneriaeth ar draws y llywodraeth a'r sector cyhoeddus, a'r gymuned ymateb i argyfwng er mwyn cryfhau gwydnwch a pharodrwydd Cymru. Mae blaenoriaethau strategol yr Is-adran yn cynnwys:

- Gwella ein dealltwriaeth o'r risgiau sy'n wynebu Cymru.
- Gwella gwydnwch a pharodrwydd Cymru ar bob lefel drwy raglen Fframwaith Gwydnwch Cymru.
- Diwygio ac ailffocysu prosesau llywodraethu a phensaernïaeth gwydnwch Cymru.
- Cyflawni blaenoriaethau'r Prif Weinidog ar wydnwch seiber fel rhan o Gynllun Gweithredu Seiber i Gymru Llywodraeth Cymru.
- Cynorthwyo'r agenda diogelwch cenedlaethol lle mae'n effeithio ar swyddogaethau Cymru a gweinidogion, gan weithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a phartneriaid.

NSRD

Yr Is-adran Diogelwch Gwladol a Gwydnwch

National Security and Resilience Division

## Tystiolaeth sylfaenol

1.25 Mae dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn darparu ar gyfer penderfyniadau gwybodus am bolisïau, rhaglenni a phrosiectau drwy roi'r dystiolaeth orau sydd ar gael wrth wraidd datblygu a gweithredu polisïau.

1.26 Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried amrywiaeth cynhwysfawr o dystiolaeth er mwyn helpu i nodi meysydd i'w gwella a datblygu'r dull strategol a nodir yn Rhan 3 a nodi'r gyfres o gamau gweithredu yn y Cynllun Cyflawni. Mae'r dystiolaeth allweddol a ystyriwyd wrth ddatblygu'r fframwaith hwn yn cynnwys y canlynol:

- **Adroddiad Modiwl 1 Covid 'Gwydnwch a pharodrwydd y Deyrnas Unedig' (2024)** – Roedd Modiwl 1 yr ymchwiliad yn ystyried a oedd y Deyrnas Unedig wedi paratoi'n briodol ar gyfer y pandemig. Roedd yn rhestru 10 argymhelliad ar gyfer newid sy'n ymwneud ag asesu risg, tystiolaeth, ymarfer, tryloywder a goruchwylio.
- **Adroddiad Cam 2 Ymchwiliad Grenfell (2024)** – a sefydlwyd i ymchwilio i amgylchiadau'r tân yn Nhŵr Grenfell. Roedd adroddiad Cam 2 yn cynnwys argymhellion ar wydnwch lleol a rôl Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Er bod argymhellion yr Ymchwiliad wedi eu cyfeirio'n ffurfiol at Lywodraeth y Deyrnas Unedig a chyrff yn Lloegr fel Brigâd Dân Llundain, mae llawer o'i brif argymhellion yr un mor berthnasol i ni yma yng Nghymru.
- **Adolygiad Partneriaethau Lleol (2023)** – adolygiad annibynnol o drefniadau argyfyngau sifil posibl yng Nghymru a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r 15 o argymhellion a gyflwynwyd yn yr adroddiad wedi helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu blaenoriaethau strategol a chyfeiriad teithio, yn enwedig yng ngoleuni'r hyn a ddysgwyd yn sgil cyfnod heb ei debyg yn y blynyddoedd diwethaf.
- **Adroddiad Ymchwiliad Arena Manceinion, Cyfrol 2 (2023)** – mae'n nodi'r canfyddiadau a'r argymhellion ar yr ymateb brys i'r ymosodiad yn Arena Manceinion yn 2017. Er bod argymhellion yr Ymchwiliad yn cael eu cyfeirio'n ffurfiol at Lywodraeth y Deyrnas Unedig a chyrff yn Lloegr, mae llawer o argymhellion, sydd yr un mor werthfawr mewn cyd-destun Cymreig, gan gynnwys cydweithio rhwng y gwasanaethau brys golau glas a rôl fforymau gwydnwch lleol.
- **Adolygiad ôl-weithredu y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (2022)** – mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i adolygu effeithiolrwydd y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl bob pum mlynedd. Cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf yn 2022.
- **Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (2022)** – Cyhoeddodd y Comisiwn Paratoadau Cenedlaethol ei Adolygiad Annibynnol o Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.
- **Gwerthuso Cynllun Peilot Cyllido 2021-22 ar gyfer Fforymau Lleol** – cynllun peilot i gasglu tystiolaeth ar effeithiolrwydd, heriau a chyfleoedd posibl darparu rhywfaint o gyllid canolog i Fforymau Lleol a rhoi cyfle iddynt ddatblygu capasiti a gallu newydd ac annog arloesi yn y sector, heb ddisodli eu cyfraniadau partner presennol.

## Ar gyfer pwy mae'r Fframwaith hwn?

1.27 Os ydym am sicrhau ein gweledigaeth i wella gwydnwch Cymru, mae angen dull gweithredu 'cymdeithas gyfan'. Mae gan bawb ran i'w chwarae. Er bod ein Cynllun Cyflawni ategol yn nodi camau gweithredu a/neu weithgarwch penodol i sefydliadau eu rhoi ar waith (naill ai'n unigol neu ar y cyd), mae'r Fframwaith hwn ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn gwydnwch a pharatoi ar gyfer argyfyngau.

1.28 Mae'r Cynllun Cyflawni yn egluro'r camau gweithredu i'w cymryd yn y tymor byr (yn ystod y flwyddyn nesaf), y tymor canolig (hyd at 2030) a'r tymor hir (y tu hwnt i 2030). Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i fabwysiadu dull gweithredu wedi ei flaenoriaethu ac fesul cam i gryfhau gwydnwch dros amser drwy fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael.

1.29 Mae'r Fframwaith hwn hefyd yn cynnwys ein hymrwymiad i gynorthwyo'r gwaith o gryfhau gwydnwch cyffredinol y Deyrnas Unedig a sut byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a llywodraethau datganoledig eraill i wella strwythurau a threfniadau presennol.



# **Rhan Dau:** Trefniadau Presennol



# Deall Risg

2.1 Mae deall risg argyfyngau sifil yn hanfodol i bob cydran o baratoi, cynllunio ac ymateb i wydnwch. Mae'n sail i'n dull gweithredu ar gyfer lliniaru ac mae'n ein helpu i nodi'r galluoedd a'r strwythurau sydd eu hangen arnom i gyfyngu ar effeithiau unrhyw risg pe bai'n digwydd.

2.2 Rydym yn parhau i wynebu llawer o beryglon a bygythiadau, o effeithiau tywydd gwael, pandemigau a materion cyflenwi ynni i'r perygl a achosir gan derfysgaeth ac ymosodiadau seiber. Nid yw hyn yn golygu bod rheswm dros y pryder, ond mae angen i ni fod yn wyliadwrus a chydnabod pwysigrwydd rhagweld a rheoli'r risgiau a allai effeithio ar Gymru. Mae hyn yn cynnwys cymryd camau ataliol priodol lle bo modd, a rhoi trefniadau cadarn wedi eu cydlynu'n dda ar waith sy'n ymateb i argyfyngau ac yn gweithio ar wella ar eu hôl ar y lefel genedlaethol a lleol.

2.3 Mae'r rhan fwyaf o risgiau, yn ôl eu natur, yn ddeinamig ac yn anodd eu rhagweld. Ni allwn bob amser ragweld sut bydd risg yn datblygu neu'n amlygu ei hun. Mae angen i ni ddeall nid yn unig y darlun risg byd-eang, ond sut gallai'r risgiau hyn effeithio ar nodweddion arbennig ein cymunedau, ein heconomi a'n hamgylchedd. Mae angen i ni gael dealltwriaeth lawn o'r risgiau hynny, sy'n benodol i Gymru.

2.4 Mae gwaith Parodrwydd yn cael ei lywio gan ddealltwriaeth ar y cyd sy'n seiliedig ar dystiolaeth a lefel uchel o ymwybyddiaeth o'r risgiau presennol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg sy'n wynebu Cymru. Mae hefyd yn allweddol i nodi mesurau atal a lliniaru, fel y camau mae Llywodraeth Cymru wedi eu cymryd mewn perthynas â diogelwch tomenni glo a llifogydd (**gweler Blwch 2**).

2.5 Tan yn ddiweddar, y prif adnodd asesu risg a ddefnyddiwyd yng Nghymru oedd Asesiad Risg Diogelwch Cenedlaethol (NSRA) cyfunol Llywodraeth y Deyrnas Unedig, sy'n darparu sylfaen ar gyfer asesu'r risgiau mwyaf difrifol sy'n wynebu'r Deyrnas Unedig. Mae'r Asesiad Risg Diogelwch Cenedlaethol yn ategu gwaith rheoli risg a chynllunio ar bob lefel yn system wydnwch y Deyrnas Unedig ac yn asesu risgiau drwy ganolbwyntio ar y tebygolrwydd o risg yn digwydd a'r effaith y byddai'n ei chael. Fodd bynnag, nid yw pob senario risg sy'n arwyddocaol i Gymru yn cael sylw yn yr Asesiad Risg Diogelwch Cenedlaethol, ac mae angen addasu'r senarios a'r fethodoleg a ddefnyddir ynddo i adlewyrchu cyd-destun Cymru. Cofrestr Risg Genedlaethol y Deyrnas Unedig yw'r fersiwn o'r Asesiad Risg Diogelwch Cenedlaethol sydd ar gael i'r cyhoedd.

2.6 Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cyfres o ddogfennau tystiolaeth risg i ddarparu sylfaen dystiolaeth risg well ar gyfer ymatebwyr yng Nghymru a Llywodraeth Cymru. Mae ein cofrestr risg yn asesiad wedi ei ddosbarthu o'r risgiau mwyaf sylweddol i Gymru yn y tymor canolig (y ddwy flynedd nesaf i'r pum mlynedd nesaf).

2.7 Arwyddocâd y gofrestr wedi ei dosbarthu hon yw ei bod yn helpu i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ar y cyd o risgiau diogelu sifil tymor byr a thymor canolig, ac i lywio parodrwydd ar gyfer argyfwng a chryfhau'r gallu i ymateb ac adfer. Ar ben hynny, mae'r gofrestr risg newydd yn galluogi Llywodraeth Cymru ac ymatebwyr i nodi ac asesu risgiau sy'n cyd-ddigwydd, a thrwy hynny i lywio gwaith cynllunio rheoli canlyniadau ac adnoddau.

Blwch 2.

# Diogelwch Tomenni Glo

Mae 2,573 o domenni glo nas defnyddir yng Nghymru, yn bennaf yng nghymoedd y De, ac amcangyfrifir bod dros 20,000 o domenni eraill (h.y. nid tomenni glo) yng Nghymru.

Ym mis Chwefror 2020, yn dilyn stormydd Ciara a Dennis, cafwyd cyfres o dirlithriadau tomenni glo yng Nghymru, gan gynnwys tirlithriad mawr o domen nas defnyddir yn Tylorstown, ac, ym mis Tachwedd 2024, achosodd Storm Bert lithriad ar domen lo nas defnyddir yng Nghwmtyleri. Mae'r tirlithriadau hyn yn dangos y risgiau posibl mae hen domenni yn eu hachosi i gymunedau.

Yn dilyn digwyddiadau mis Chwefror 2020, roedd Llywodraeth Cymru wedi arwain y gwaith o weithredu rhaglen genedlaethol o arolygu a rheoli tomenni. Mae'r rhaglen wedi categoreiddio a chyhoeddi lleoliad tomenni glo nas defnyddir yng Nghymru, wedi darparu dros 2,200 o arolygiadau ac wedi gweld buddsoddiadau o dros £100 miliwn yn cael eu gwneud ar draws 10 awdurdod lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Gan adlewyrchu ein hymrwymiad i atebion tymor hir i risg gwydnwch, mae angen dull strwythuredig o reoli hen domenni. Fodd bynnag, nid yw'r fframwaith deddfwriaethol presennol bellach yn darparu fframwaith rheoli effeithiol ar gyfer tomenni glo segur yn yr unfed ganrif ar hugain. Ym mis Rhagfyr 2024, cafodd Bil Tomenni a Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) ei gyflwyno i'r Senedd. Mae'r Bil yn sefydlu corff cyhoeddus newydd, sef yr Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru, a fydd yn meddu ar swyddogaethau mewn perthynas ag asesu, cofrestru, monitro a rheoli tomenni nas defnyddir.

Bydd y drefn newydd yn ddigon addasol i ymateb i ofynion y dyfodol ac mae'n hyblyg i elwa ar ddatblygiadau technolegol newydd a meithrin cysylltiadau cryf â chyrff cyhoeddus eraill gan feithrin arbenigedd a chadernid i atal tomenni nas defnyddir rhag bod yn fygythiad i ddiogelwch y cyhoedd.

**Cyn**



**Ar ôl**



2.8 Mae'r gofrestr risg newydd yn defnyddio Asesiad Risg Diogelwch Cenedlaethol y Deyrnas Unedig, ond mae hefyd yn asesu'r risgiau hynny sy'n benodol i Gymru nad ydynt yn cael eu hasesu yn yr Asesiad Risg Diogelwch Cenedlaethol. Drwy weithio'n uniongyrchol gyda phedwar **fforwm lleol** Cymru, mae'r Gofrestr Risg yn ystyried effaith y risgiau ar wahanol gymunedau. Yn unol ag argymhellion Modiwl 1 yr Ymchwiliad Covid ar graffu annibynnol, cafodd ein dull gweithredu ei asesu gan Goleg Cynllunio at Argyfyngau y Deyrnas Unedig (Academi Gwydnwch y Deyrnas Unedig erbyn hyn), a ddaeth i'r casgliad bod y broses asesu risg yn 'gadarn', gan ddarparu 'ymarfer da ac arweiniol'.

2.9 Bydd y gofrestr risg yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n barhaus i adlewyrchu'r dirwedd risg sy'n newid o hyd er mwyn sicrhau ei bod yn dal yn gadarn ac yn ddeinamig. Yn Rhan 3, rydym yn amlinellu sut byddwn yn parhau i ddatblygu ein sylfaen dystiolaeth risg, a'n gwaith parhaus gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i helpu i lywio prosesau asesu risg ar gyfer Asesiad Risg Diogelwch Cenedlaethol y Deyrnas Unedig.

2.10 Rydym hefyd wedi datblygu adnodd mapio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) ar-lein i helpu i alluogi rhannu data'n ddiogel gydag ymatebwyr brys i flaenoriaethu cymorth i'r rhai a allai fod ei angen fwyaf. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud gyda'r gymuned o ymatebwyr i ddeall sut gellir gwella'r llwyfan hwn ymhellach i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion ymatebwyr.

## Cofrestrau Risgiau Cymunedol

2.11 Fel rhan o waith aml-asiantaeth o fewn **Fforymau Lleol Gwydnwch** Cymru, rhaid i ymatebwyr Categori 1 gydweithredu â'i gilydd i gynnal Cofrestr Risgiau Cymunedol[4] ar gyfer eu hardal Fforwm Lleol. Yng Nghymru, mae'r pedwar Fforwm Lleol[5] yn cadw Cofrestrau Risgiau Cymunedol drwy eu grwpiau risg perthnasol. Mae hyn yn cynnwys asesu tebygolrwydd ac effeithiau amrywiaeth o beryglon a bygythiadau sydd â'r potensial i amharu'n sylweddol ar gymunedau, seilwaith, yr amgylchedd a'r economi.

## Cryfhau ein dull o reoli risg

2.12 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella'n barhaus ac i ddysgu gwersi o brofiad (gan gynnwys digwyddiadau ac ymarferion) ac o arferion da o bob rhan o'r Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

2.13 Rydym eisoes wedi cymryd camau sylweddol i wella ein dull gweithredu o ran parodrwydd ac ymateb, gan adeiladu ar feysydd i'w gwella mewn adolygiadau ac argymhellion ymchwiliadau. Yn y Rhan hon, rydym yn nodi lle gallwn ni fynd ymhellach. Yn Rhan 3 ac yn y cynllun cyflawni, rydym yn cynnwys ein cynlluniau i sicrhau gwelliannau a dysgu parhaus.

### Lefel y Deyrnas Unedig

2.14 Rydym wedi gwella cysylltiadau gwaith presennol gyda'r Deyrnas Unedig a phartneriaid mewn llywodraethau datganoledig ac wedi cynorthwyo gwaith i wella dulliau o asesu risg ac asesu effeithiau – er enghraifft, mewn perthynas â grwpiau agored i niwed.

### Lefel Cymru gyfan

2.15 Rydym wedi datblygu cofrestr risg i Gymru fel bod gan y llywodraeth ac ymatebwyr ddealltwriaeth gywir ac ar y cyd o risgiau, gan ddarparu sylfeini cadarn ar gyfer anghenion cynllunio ac adnoddau sy'n gymesur â'r risgiau rydym yn eu hwynebu.

2.16 Rydym wedi adeiladu ar systemau a phrosesau presennol i wella tystiolaeth a'r sylfaen wybodaeth er mwyn ystyried pobl sy'n agored i niwed a grwpiau sydd mewn perygl.

4 Rheoliadau Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 (Cynllunio Argyfyngau Sifil Posibl) 2005, rheoliad 15.

5 Fforwm Dyfed Powys **www.dyfed-powys.police.uk/cy-GB/SysSiteAssets/foi-media/dyfed-powys/lists-and-registers/risk-registers/dplrf-crr---welsh.pdf**
Fforwm Gwent **www.gwentprepared.org.uk/cy/risks-we-face/cofrestr-risg-cymunedol/**
Fforwm Gogledd Cymru **www.tangogleddcymru.llyw.cymru/media/blnpvch0/cofrestr-risg-gymunedol-gogledd-cymru-ionawr-2025.pdf**
SWLRF **www.abertawe.gov.uk/CofrestrRisgiauCymunedol?lang=cy**

2.17 Rydym wedi gweithio gyda grwpiau risg y Fforymau Lleol i hyrwyddo defnyddio methodoleg asesu risg newydd Cymru, i helpu i sicrhau dull cyson o reoli risg ar lefel leol a chenedlaethol, mewn ffordd sy'n ategu'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer asesu risg yn y Deyrnas Unedig.

### Partneriaid yn y Fforymau

2.18 Er mwyn sicrhau bod cofrestr risg Cymru yn cael data cyson a chymaradwy gan Fforymau Lleol, **mae'n bwysig bod pedwar Fforwm Cymru yn mabwysiadu dull a methodoleg gyson**. Bydd hyn yn golygu bod modd cynnal asesiad clir a chymaradwy o'r risgiau ar lefel leol. Mae hyn yn gofyn am gysondeb o ran methodoleg ac asesu yn ogystal â chyflwyno, adolygu a diweddaru asesiadau risg.

## Paratoi a Chynllunio ar gyfer Argyfyngau

2.19 O dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl, gosodir dyletswyddau penodol ar ymatebwyr categori 1 i gynllunio a pharatoi ar gyfer argyfyngau[6]. Mae hyn yn cynnwys cynnal cynlluniau i atal, lliniaru, lleihau neu reoli effeithiau unrhyw argyfwng.

2.20 Mae'r Rheoliadau Argyfyngau Sifil Posibl[7] yn gosod dyletswydd ar ymatebwyr categori 1 i gydweithredu mewn perthynas â'r dyletswyddau hyn drwy fecanwaith y Fforymau Lleol. Mae hyn yn cynnwys cydweithredu ag ymatebwyr categori 2 lle bo hynny'n berthnasol.

2.21 Yng Nghymru, mae **Fforymau Gwydnwch Lleol** aml-asiantaeth yn gweithredu o fewn pedair ardal yr Heddluoedd, sef De Cymru, Gogledd Cymru, Dyfed-Powys a Gwent.

2.22 Nid yw Fforymau Lleol yn endidau cyfreithiol o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl, ac nid oes ganddynt bwerau i roi cyfarwyddyd i aelodau. Mae'r fforwm yn gyfrwng i ymatebwyr categori 1 a 2 gydweithio i gynllunio a pharatoi ar gyfer digwyddiadau lleol ac argyfyngau trychinebus. Mae Fforymau lleol yn gweithio i nodi risgiau posibl a chynhyrchu cynlluniau argyfwng i naill ai atal neu liniaru effaith unrhyw ddigwyddiad ar eu cymunedau lleol. Mae'r Ddeddf a'r Rheoliadau'n darparu bod gan ymatebwyr sy'n gweithio o fewn fforwm gydgyfrifoldeb i gynllunio, paratoi a chyfathrebu mewn amgylchedd aml-asiantaeth.

2.23 Mae pob Fforwm Lleol yn cael ei gadeirio gan brif uwch swyddog yn wirfoddol, ac mae'r partneriaid sy'n ymateb yn cael eu cefnogi gan gydlynydd neu reolwr i gynorthwyo'r partneriaid i gyflawni eu dyletswyddau statudol.


2.24 Mae canllawiau statudol ar Ran 1 o'r Ddeddf a'r rheoliadau yn cael eu darparu yn '*Emergency Preparedness*', a gyflwynwyd ar gyfer Cymru a Lloegr ar y pryd cyn i swyddogaethau Rhan 1 gael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru. Mae '*Emergency Preparedness*' a'r ddogfen gysylltiedig '*Emergency Response and Recovery*', yn nodi'r fframwaith generig ar gyfer diogelwch sifil.

2.25 Er mwyn darparu dull gweithredu cydlynol ar lefel Cymru gyfan, mae **Fforwm Gwydnwch Cymru**, dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog, yn pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer gwydnwch yng Nghymru. Mae ei aelodau'n cynnwys uwch swyddogion o asiantaethau ymateb, gan gynnwys y gwasanaethau brys, y lluoedd arfog, cyrff y llywodraeth a'r sector gwirfoddol.

2.26 Mae **Tîm Partneriaeth Gwydnwch Cymru** yn mynd i'r afael â gwaith Fforwm Gwydnwch Cymru mewn partneriaeth â Fforymau Lleol i gyflawni amcanion y cytunwyd arnynt ar lefel Cymru gyfan, gan ddarparu gwerth a chymorth i'r gwaith aml-asiantaeth sy'n cael ei wneud yn lleol.

6 Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, adran 2(1)(d).
7 Rheoliadau Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 (Cynllunio Wrth Gefn) 2005.

## Map o Fforymau Gwydnwch Lleol Cymru




Ffynhonnel: Cartographics, Llywodraeth Cymru

### Gwella parodrwydd

2.27 Mae trosglwyddo swyddogaethau Rhan 1 o'r Ysgrifennydd Gwladol i Weinidogion Cymru yn rhoi cyfle i ystyried sut gallwn ni gryfhau'r broses o gyflawni swyddogaethau'r Ddeddf a'r rheoliadau ategol. Mae trosglwyddo swyddogaethau yn rhoi cyfle i fireinio strwythurau llywodraethu, a gyflwynwyd cyn datganoli'r Ddeddf i Gymru.

#### Lefel y Deyrnas Unedig

2.28 Yn anaml y bydd argyfyngau mawr yn parchu ffiniau gweinyddol. Drwy wella gwydnwch yng Nghymru a thrwy rannu arferion da gyda llywodraeth y Deyrnas Unedig a llywodraethau datganoledig eraill, rydym yn cyfrannu at wydnwch y Deyrnas Unedig drwyddi draw. Mae gennym gyfle i adeiladu ar gydlynu rhynglywodraethol a'i gryfhau, a rhannu arferion gorau a gwersi a ddysgwyd.

#### Lefel Cymru gyfan

2.29 Gyda throsglwyddo swyddogaethau i Weinidogion Cymru, rydym wedi adolygu meysydd a fyddai'n elwa ar gael eu hail-ddiffinio neu eu hail-strwythuro yn sgil y setliad datganoli. Mae hyn wedi cynnwys y trefniadau llywodraethu ar gyfer Cymru gyfan, canllawiau gwell i ymatebwyr categori 1 a 2 yng Nghymru i adlewyrchu rôl Gweinidogion Cymru yn ogystal â phennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer gwydnwch yng Nghymru.

#### Partneriaid yn y Fforymau

2.30 Gan ddefnyddio swyddogaethau Gweinidogion Cymru, mae'r fframwaith hwn yn amlinellu sut bydd gwaith Llywodraeth Cymru gyda phartneriaid yn y Fforymau Lleol yn darparu canllawiau a chyfarwyddyd penodol i Gymru i ymatebwyr categori 1 a 2, i adlewyrchu anghenion penodol Cymru yn ogystal â dull wedi ei fireinio o ymdrin ag atebolrwydd a sicrwydd.

## Capasiti a Gallu

### Hyfforddiant ac Ymarfer

2.31 Er mwyn cynllunio, ymateb ac adfer yn llwyddiannus ar ôl digwyddiadau, rhaid i bawb sy'n ymateb, sefydliadau ac unigolion sy'n gysylltiedig feddu ar wybodaeth, sgiliau a rhwydweithiau arbenigol a chyffredinol. Mae dysgu a datblygu rhagorol yn gwella effeithiolrwydd yr holl weithgarwch gwydnwch ac ymateb i argyfyngau. Mae angen i ymatebwyr hefyd feddu ar ddealltwriaeth dda o'r sgiliau a'r galluoedd sydd ar gael mewn asiantaethau ymateb eraill ac yn y trydydd sector.

2.32 Mae rhaglenni hyfforddi ac ymarfer ar gael ar hyn o bryd ar lefel y Deyrnas Unedig, ar lefel Cymru gyfan ac ar lefel leol. Mae ymatebwyr o Gymru, Llywodraeth Cymru a Fforymau Lleol yn cymryd rhan yn rhaglenni ymarfer Llywodraeth y Deyrnas Unedig, sy'n ymestyn ar draws y Deyrnas Unedig neu Gymru a Lloegr. Mae ymarferion Cymru gyfan a lleol hefyd yn cael eu cynnal, er mwyn galluogi ymatebwyr i roi prawf straen ar gynlluniau a pharodrwydd.

2.33 Ar lefel Cymru gyfan, gall uwch arweinwyr fynychu 'Ymarfer Aur Cymru', sydd wedi ei gynllunio i'w paratoi i fod yn aelodau effeithiol o Grwpiau Cydlynu Strategol neu Grwpiau Cydlynu Adferiad, drwy ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad perthnasol. Mae'r cwrs hwn yn cyd-fynd â Chwrs Rheoli Digwyddiadau Aur Aml-asiantaeth (MAGIC) y Coleg Plismona, gan wella'r gallu i ryngweithredu ar draws ffiniau.

2.34 Mae'r Fforymau Lleol hefyd yn darparu hyfforddiant i benaethiaid 'Arian' ar gyfer aelodau'r Grwpiau Cydlynu Tactegol.

## Gwella capasiti a gallu

2.35 Pwrpas dysgu gwersi a chasglu tystiolaeth o arferion cadarnhaol yw sbarduno gwelliannau parhaus yn y ffordd mae ymatebwyr, llywodraeth, sefydliadau a phartneriaid aml-asiantaeth yn rhagweld, yn asesu, yn atal, yn paratoi, yn ymateb ac yn adfer ar ôl argyfyngau (**gweler Atodiad 5**).

2.36 Bydd angen gwella capasiti a gallu bob amser, yn enwedig wrth i risgiau newydd godi neu lle mae newidiadau mewn staff neu pan fydd dulliau, systemau a phrosesau newydd yn cael eu datblygu. Mae dysgu gwersi yn hanfodol er mwyn osgoi camgymeriadau a wnaed yn y gorffennol, gyrru gweithgarwch parodrwydd yn ei flaen, a lleihau'r effeithiau niweidiol sy'n gallu codi mewn argyfyngau.

2.37 Er mwyn gwella ein galluoedd yn barhaus, mae angen diwylliant o ddysgu a gwella parhaus a systematig.

2.38 Gan weithio gyda phartneriaid, mae nifer o feysydd allweddol wedi cael eu nodi, a fyddai'n helpu i wella galluoedd ar lefel leol ac ar lefel Cymru gyfan. Mae'r rhain i'w gweld ym mharagraffau 2.39 i 2.43.

### Lefel y Deyrnas Unedig

2.39 Adeiladu ar gysylltiadau presennol i gryfhau'r broses o rannu arferion gorau a'r gwersi a ddysgwyd, fel bod modd mabwysiadu dulliau cyson lle bo hynny'n briodol.

### Lefel Cymru gyfan

2.40 Defnyddio dull '*Unwaith i Gymru*' i ddarparu hyfforddiant ac ymarfer er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd a'r arbedion maint gorau posibl a gwella cysondeb ar draws holl ranbarthau Cymru i sicrhau parodrwydd ar gyfer Cymru gyfan. Lle bo'n briodol, canoli hyfforddiant ac ymarfer er mwyn osgoi dyblygu a helpu i sicrhau bod ymatebwyr yng Nghymru yn mabwysiadu dull a safonau cyson.

2.41 Defnyddio cofrestr risg Cymru i flaenoriaethu anghenion hyfforddi ac ymarfer ar lefel Cymru gyfan.

### Partneriaid yn y Fforymau

2.42 Mae'r gofrestr risg newydd yng Nghymru yn helpu i ganfod anghenion hyfforddi ac ymarfer. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Fforymau Lleol i gynorthwyo gwaith blaenoriaethu a sicrhau cysondeb o ran cofnodi gwersi a nodwyd a rhaglenni hyfforddi lleol.

2.43 Mae adroddiad Ymchwiliad Arena Manceinion cyfrol 2 yn pwysleisio'r angen i aelodau pob gwasanaeth brys **fod yn ymwybodol o alluoedd arbenigol a ddarperir gan ymatebwyr eraill**. Mae Fforymau Lleol Cymru wedi dechrau gweithio i ymgorffori'r angen hwn yn eu rhaglenni gwaith, gyda gweithdai penodol yn cael eu cynnal i wella ymwybyddiaeth o alluoedd arbenigol.

# Rheoli Gwersi

2.44 Mae digwyddiadau, ymarferion ac ymchwiliadau yn gallu cynnig gwersi gwerthfawr ar sut gallwn wella ein dulliau o reoli risg, cynllunio, ymateb ac adfer. Mae Rheoli Gwersi'n cyfeirio at 'ddull strategol a threfnedig o oruchwylio prosesau a gweithdrefnau sydd wedi eu cynllunio i sicrhau tystiolaeth o ddysgu o brofiad, a hynny mewn ffordd gyson, barhaus[8].

2.45 Mae angen i ni ystyried yr heriau a'r cyfleoedd o ran nodi a chofnodi gwersi'n fwy cywir, ac o ran sefydlu prosesau effeithiol ar gyfer gweithredu ac adolygu gwersi a gwelliannau.

8 Canllawiau Arferion Gorau ar gyfer Rheoli Gwersi: Crynodeb Gweithredol.

## Gwella dulliau o reoli gwersi

### Cymru gyfan

2.46 Rydym wedi nodi meysydd i'w gwella, gan gynnwys adeiladu ar y dulliau a'r prosesau rheoli gwersi presennol i sicrhau dull gweithredu ledled Cymru ar gyfer adnabod a rheoli gwersi. Sicrhau bod prosesau sicrwydd priodol ar waith i sicrhau bod gwersi'n cael eu nodi a'u neilltuo ar gyfer gweithredu yn unol â hynny.

2.47 Gwella systemau ar gyfer rheoli prosesau dysgu gwersi o'r dechrau i'r diwedd.

2.48 Integreiddio camau ôl-drafod i'r gwaith o ddylunio ymarfer a sicrhau capasiti personél annibynnol sydd wedi eu hyfforddi'n briodol.

### Partneriaid yn y Fforymau

2.49 Mae systemau rheoli gwersi haen leol yn gydnaws â systemau Cymru gyfan er mwyn helpu i sicrhau dull gweithredu cyson a chadarn ar lefel leol a chenedlaethol.

# Trefniadau Ymateb ac Adfer

## Ymateb

2.50 Mae rheoli argyfwng yn cynnwys nid yn unig yr ymdrech i ddelio â chanlyniadau uniongyrchol digwyddiad mawr, ond hefyd effeithiau anuniongyrchol y digwyddiad, a allai gynnwys effeithiau eilaidd aflonyddgar (fel y rhai ar rwydweithiau trafnidiaeth, seilwaith, amgylchedd a diddordeb cymunedol, cyfryngau a newyddion ehangach yn y digwyddiad), a throsglwyddo i adfer a dychwelyd i normalrwydd, neu normalrwydd "newydd" yn achos digwyddiadau ac argyfyngau aflonyddgar iawn. Mae gweithredu trefniadau gorchymyn a rheoli effeithiol yn gyflym ar gyfer casglu a rhannu gwybodaeth, cydlynu'r ymdrech ymateb, ac ar gyfer gwneud penderfyniadau yn hanfodol er mwyn lleihau effeithiau argyfyngau.

2.51 Mae angen teilwra'r ymateb i bob digwyddiad i'r amgylchiadau. Bydd y sefyllfa, y lleoliad, graddfa a graddau'r canlyniadau yn pennu lefel a natur briodol yr ymateb.

2.52 Yng Nghymru, fel mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig, mae dull tair haen ar gael – yn dibynnu ar faint y digwyddiad. Y rhain yw: a) strategol, b) tactegol ac c) gweithredol (y cyfeirir ato'n aml fel Aur, Arian ac Efydd. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau ymateb effeithiol, disgwylir y dylai aelodaeth y Fforymau Lleol, ar ba lefel bynnag, gynnwys yr unigolion hynny sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni'r canlyniadau gofynnol a'r ymateb mwyaf effeithiol.

2.53 Ymdrinnir â'r rhan fwyaf o argyfyngau yng Nghymru ar lefel leol, gyda chydlynu aml-asiantaeth a phenderfyniadau'n cael eu gwneud drwy Grwpiau Cydgysylltu Strategol lle bo angen. Fodd bynnag, oherwydd graddfa neu gymhlethdod, mae'n bosibl y bydd angen rhywfaint o gymorth neu gefnogaeth gan y llywodraeth ar gyfer rhai argyfyngau, gyda llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig yn cymryd yr awenau lle bo hynny'n briodol, yn unol â'r setliad datganoli. Mae *Cynllun Ymateb Cymru* Gyfan yn nodi'r trefniadau ar gyfer rheoli argyfyngau mawr sy'n effeithio ar sawl rhan o Gymru neu ar bob rhan ohoni.

2.54 Mae Llywodraeth Cymru yn glynu wrth egwyddor cynllunio ar gyfer argyfyngau sydd wedi hen ymsefydlu ac sy'n arfer gorau, gyda'r gwaith o reoli'r ymateb yn cael ei wneud ar y lefel ymarferol isaf gyda'r cydlynu ar y lefel uchaf sy'n angenrheidiol.

2.55 Dylid defnyddio'r egwyddorion ar gyfer cydweithio (Egwyddorion Cyd-weithredu ar Wasanaethau Brys, JESIP) yn ystod pob cam o ddigwyddiad, boed hynny'n ddigymell neu wedi ei gynllunio ymlaen llaw, a waeth beth fo'r raddfa. Maent yn cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu ymateb aml-asiantaeth ac yn darparu strwythur yn ystod yr ymateb i bob digwyddiad. Un o'r anawsterau sy'n wynebu ymatebwyr yw sut mae dod â'r wybodaeth sydd ar gael at ei gilydd, cysoni blaenoriaethau gwahanol o bosibl ac yna gwneud penderfyniadau effeithiol gyda'i gilydd. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn, mae JESIP wedi darparu'r Model Penderfyniadau ar y Cyd i helpu i ddatrys y mater hwn (**gweler Atodiad 6**). Mae model JESIP wedi ei gynnwys yn yr *Athrawiaeth ar y Cyd*, sy'n cynnwys:

- **Egwyddorion ar gyfer Cydweithio** – yr egwyddorion y mae disgwyl i gomanderiaid eu dilyn wrth gynllunio ymateb i ddigwyddiad ar y cyd.
- **M/ETHANE** – dull cyffredin ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth am ddigwyddiad rhwng gwasanaethau a'u hystafelloedd rheoli.
- **Model Penderfyniadau ar y Cyd (JDM)** – Model cyffredin sy'n cael ei ddefnyddio'n genedlaethol i alluogi swyddogion i wneud penderfyniadau effeithiol gyda'i gilydd.

2.56 Os bydd argyfwng mawr neu drychinebus yn digwydd, er enghraifft llifogydd helaeth a sylweddol ledled Cymru, damwain neu ddigwyddiad diwydiannol mawr, neu ymosodiad terfysgol, mae Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau (ECCW) yn cael ei rhoi ar waith i roi gwybod i weinidogion am y sefyllfa, cydlynu ymateb Llywodraeth Cymru, rhannu gwybodaeth (gan gynnwys â Llywodraeth y Deyrnas Unedig), cofnodi a dosbarthu penderfyniadau, a chynghori gweinidogion ar unrhyw benderfyniadau y gallai fod angen iddynt eu gwneud i gefnogi ymateb ac ymdrechion adfer. Er enghraifft, yn ystod Storm Darragh ym mis Rhagfyr 2024, gweithredwyd y system 'rhybudd brys' newydd a ddatblygwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i roi gwybod i 13 awdurdod lleol yng Nghymru am y rhybudd coch sy'n gysylltiedig â'r storm a'r rhagofalon i'w cymryd i sicrhau diogelwch (**gweler Atodiad 7**).

2.57 Mae'r Pwyllgor Risg a Pharodrwydd yn rhan bwysig o drefniadau llywodraethu a goruchwylio Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor yn helpu i sicrhau bod ein strwythurau gwydnwch yn parhau i fod yn effeithlon, yn benodol ac yn addas i'r diben, yn enwedig yng ngoleuni gwersi a nodwyd o ddigwyddiadau ac ymarferion, a phroffil risg sy'n esblygu. Mae'r Pwyllgor yn symud o'i swyddogaethau 'heddwch', sy'n canolbwyntio ar reoli risg a pharodrwydd, i swyddogaethau ymateb i argyfwng i oruchwylio trefniadau cydlynu strategol Llywodraeth Cymru (**gweler Blwch 3**).

2.58 Er bod y Pwyllgor Risg a Pharodrwydd yn darparu goruchwyliaeth uwch ar draws y gyfres o risgiau sy'n effeithio ar Gymru, mae gan Lywodraeth Cymru Fyrddau goruchwylio penodol i bolisi hefyd i fynd i reoli risgiau a datblygu galluoedd ymateb sydd o ddiddordeb trawslywodraethol, fel y Bwrdd Parodrwydd ar gyfer Pandemig (**gweler Blwch 4**).

2.59 Mewn argyfyngau mawr, gellir rhoi *Cynllun Ymateb Cymru Gyfan* ar waith. Mae'r cynllun hwn yn nodi'r trefniadau ar gyfer integreiddio'r ymateb i argyfyngau yng Nghymru neu sy'n effeithio ar Gymru ar lefel Cymru gyfan. Mae'n adlewyrchu'r egwyddorion ymateb sydd yn y canllawiau anstatudol *Emergency Response and Recovery*, sy'n ategu Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Mae'r cynllun yn nodi trefniadau cydlynu yn hytrach na strwythur rheoli ar gyfer Cymru gyfan. Yn bennaf, mae'n darparu fframwaith ar gyfer rheoli argyfyngau sy'n effeithio ar sawl ardal o Gymru neu Gymru gyfan. Gellir ei weithredu hefyd mewn ymateb i ddigwyddiad mawr mewn un ardal Fforwm Lleol (**gweler Atodiad 7**).

2.60 Nod y Cynllun Ymateb yw darparu cyfarwyddyd a choladu a rhannu gwybodaeth os oes angen i un neu fwy o Fforymau Adnoddau Lleol drwy weithredu eu Grwpiau Cydlynu Strategol. Yn y pen draw, ceisio creu darlun 'Cymreig' mwy yn unig, a allai wedyn fwydo i mewn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn ogystal â phartneriaid eraill.

2.61 Mewn argyfwng mawr, yn unol â'r Cynllun Ymateb, bydd Pwyllgor Argyfyngau Sifil Posibl Cymru yn cynnull ac yn datblygu darlun cyffredinol, yn nodi ac yn cyfeirio camau gweithredu i gynorthwyo'r ymateb lleol, yn rheoli risgiau sy'n dod i'r amlwg a chanlyniadau ac yn cynghori ac yn hysbysu Gweinidogion Cymru.

## Blwch 3.
## Pwyllgor Risg a Pharodrwydd Llywodraeth Cymru

Yng ngoleuni'r dirwedd risg sy'n esblygu, yn gynnar yn 2023 gofynnodd Pwyllgor Gweithredol yr Ysgrifennydd Parhaol i swyddogion gryfhau trefniadau goruchwylio a chydlynu strategol ar gyfer parodrwydd ac ymateb i argyfyngau. Dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg, mae'r Pwyllgor Risg a Pharodrwydd yn dod â chyfarwyddwyr ar draws Llywodraeth Cymru at ei gilydd i wneud y canlynol:

- **Darparu goruchwyliaeth uwch arweinwyr** ar gyfer risgiau mawr sy'n effeithio ar Gymru, gan ddefnyddio cofrestr risg Llywodraeth Cymru;
- **Cydlynu** parodrwydd adrannau a sectorau cysylltiedig a'u gyrru ar lefel strategol i leihau ac atal risgiau rhag dod i'r amlwg lle bo hynny'n bosibl;
- **Ystyried materion sy'n cael eu huwchgyfeirio** o Weithgor yr Uwch Swyddogion a materion y mae angen eu huwchgyfeirio i'r Pwyllgor Gwaith;
- **Rhoi sicrwydd** ynghylch materion gwydnwch a pharodrwydd i weinidogion; a hefyd;
- **Cynghori'r Pwyllgor Gwaith a gweinidogion ar ymwybyddiaeth o risg a goddefgarwch ohono**, gan gynnwys ystyried cymhwysedd gweithredol a deddfwriaethol mewn perthynas â rheoli risgiau gwydnwch.

Mae'r Pwyllgor Risg a Pharodrwydd yn cael ei gynorthwyo gan Weithgor Uwch Swyddog i gyflawni gwaith a phrosiectau blaenoriaeth, a chydlynu'r gwaith o reoli gwersi.



## Blwch 4.
# Y Bwrdd Parodrwydd ar gyfer Pandemig

Mae'r risg o bandemig a achosir gan bathogen newydd yn un o'r prif risgiau a nodwyd yn Asesiad Risg Diogelwch Cenedlaethol y Deyrnas Unedig a Chofrestr Risg Cymru. Teimlir effeithiau pandemig ar draws y gymdeithas a'r economi gyfan, felly mae'n rhaid i gynllunio ar gyfer y pandemig nesaf adlewyrchu hyn. Cafodd y Bwrdd Parodrwydd ar gyfer Pandemig ei sefydlu yn 2024 ac mae'n cael ei gyd-gadeirio gan Gyfarwyddwr Diogelu Iechyd Llywodraeth Cymru, a Chyfarwyddwr Risg, Gwydnwch a Diogelwch Cymunedol. Mae ganddo aelodaeth eang o uwch swyddogion o bob rhan o Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod effeithiau traws-sectoraidd yn cael eu hystyried yn llawn a'u bod yn cael eu cynnwys yn ein gwaith cynllunio.

Prif rôl y Bwrdd Parodrwydd yw goruchwylio amrywiaeth o weithgareddau allweddol yn gorfforaethol i gynorthwyo nod Llywodraeth Cymru o barhau i adeiladu galluoedd hyblyg, addasadwy a graddadwy sy'n gallu ymateb i unrhyw fygythiad. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys asesiad cynhwysfawr o alluoedd ymateb i'r pandemig yng Nghymru a datblygu cynlluniau a strategaethau ar gyfer y pandemig, gan gynnwys lle mae'r rhain ar draws y Deyrnas Unedig.

Mae'r Bwrdd Parodrwydd yn ystyried effeithiau traws-lywodraeth pandemigau ac achosion arwyddocaol eraill o glefydau gydag effeithiau traws-sectoraidd, gan egluro rolau a chyfrifoldebau o fewn Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran gwneud penderfyniadau yn ystod pandemig. Mae'r Bwrdd Parodrwydd hefyd yn ystyried y rhyngddibyniaethau rhwng adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac adrannau Llywodraeth Cymru.



2.62 Mae Pwyllgor Argyfyngau Sifil Posibl Cymru yn gorff cynghori sy'n cynnwys uwch-gynrychiolwyr Adrannol o Lywodraeth Cymru ac uwch-arbenigwyr o blith ymatebwyr Categori 1 a 2 ac eraill sy'n gallu asesu a chynghori orau ar argyfwng penodol sy'n effeithio ar Gymru. Gall Llywodraeth Cymru alw ar Bwyllgor Argyfyngau Sifil Posibl Cymru ar gais Grŵp Cydlynu Strategol, asiantaeth bartner neu Swyddfa'r Cabinet.

2.63 Yn dilyn unrhyw ddigwyddiad, mae'n gyffredin i sesiwn ôl-drafod gael ei chynnal gyda'r holl ymatebwyr perthnasol ac asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae proses ôl-drafodaeth gadarn yn helpu i nodi gwelliannau posibl mewn perfformiad, neu'n fwy cyffredinol cyfeirir ato fel 'gwersi' a nodwyd (sy'n cael sylw ym mharagraffau 2.46-2.49).

## Gwella Rheoli Argyfyngau

### Lefel Cymru gyfan

2.64 Wrth i *Gynllun Ymateb Cymru Gyfan* gael ei ddatblygu yn 2005 ac wrth iddo gael diweddariadau rheolaidd, fe'i cynlluniwyd i fynd i'r afael â hinsawdd risg wahanol, ac o'r herwydd mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu a diweddaru'r Cynllun.

2.65 Mae'n arfer dda yn gyffredinol sicrhau bod yr holl gynlluniau ar gyfer Cymru gyfan yn addas i'r diben ac yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn unol â hynny.

2.66 Er mwyn mynd i'r afael â'r dirwedd risg sy'n newid, mae dulliau ymateb i ddigwyddiadau Llywodraeth Cymru yn cael eu diweddaru i sicrhau eu bod yn hyblyg, yn symudol ac yn addas ar gyfer tirweddau risg yn awr ac yn y dyfodol.

2.67 Gyda chyhoeddi'r Fframwaith hwn a'r cyfeiriad strategol newydd ar gyfer gwydnwch yng Nghymru, mae cyfle i adolygu'r canllawiau presennol i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y gymuned o ymatebwyr yng Nghymru ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol Gweinidogion Cymru.

### Partneriaid yn y Fforymau

2.68 Ar ôl cydnabod canfyddiadau Ymchwiliad Arena Manceinion ar rôl cyllid i Fforymau Lleol, yn 2024 fe wnaethom ddarparu cyllid i'r pedwar Fforwm Lleol yng Nghymru. Byddwn yn parhau i adolygu cyllid a sut gallwn gynorthwyo gwaith y Fforymau Lleol yn ariannol. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda'n Fforymau Lleol i sicrhau digon o staff ac adnoddau.

## Adfer

2.69 Gall adferiad o argyfwng fod yn broses gymhleth a hirhoedlog, a allai gynnwys llawer mwy o asiantaethau a chyfranogwyr na'r cyfnod ymateb. Er ei fod yn gallu cynnwys ailadeiladu, adfer ac adsefydlu'r gymuned yn dilyn argyfwng ar un lefel, gall hefyd gynnwys mynd i'r afael â'r trawma mae argyfwng wedi ei achosi i gymuned.

2.70 Mae adferiad yn dechrau ar yr adeg pan fydd digwyddiad yn digwydd ac yn parhau nes bod yr amhariad wedi ei ddatrys, bod gwasanaethau wedi dychwelyd i lefelau normal, a bod anghenion y rhai yr effeithir arnynt wedi eu diwallu. Yn gyffredinol, bydd y broses yn ymwneud â'r gwaith anodd a chymhleth o reoli nifer o asiantaethau a llywodraeth o dan strategaeth gyffredin i gefnogi unigolion a chymunedau yr effeithir arnynt i ailadeiladu bywydau, gwasanaethau a seilwaith.

2.71 Un o'r prif amcanion ar gyfer unrhyw adferiad fydd i'r holl asiantaethau a'r llywodraeth weithio gyda'i gilydd i adeiladu seilwaith newydd a datblygu gwasanaethau newydd i helpu i adfywio ac bywiogi'r cymunedau yr effeithir arnynt, gan ddarparu ar yr un pryd ar gyfer llesiant cymdeithasol, emosiynol a chorfforol pawb sy'n gysylltiedig[9].

2.72 Yn yr un modd ag ymateb, mae'n well rheoli gweithrediadau adfer ar lefel leol gyda'r egwyddor o sybsidiaredd yn cael ei chymhwyso i wneud penderfyniadau. Bydd angen dod ag arbenigedd amrywiaeth o asiantaethau at ei gilydd i weithio ochr yn ochr â'r rhai yr effeithir arnynt i adfer y cymunedau mor gyflym ac effeithlon â phosibl.

9 Darllenwch ganllawiau'r Swyddfa Gartref – **Recovery – An Emergency Management Guide**.

2.73 Yn gyffredinol, bydd awdurdodau lleol yn arwain y gwaith aml-asiantaeth wrth ddatblygu cynlluniau adfer y Fforymau Lleol a chydlynu'r gwaith adfer ar ôl unrhyw ddigwyddiad.

2.74 Os yw maint y gwaith adfer yn fwy na chapasiti a chyllid lleol, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru gynorthwyo'r broses hon mewn unrhyw ffordd bosibl, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau datganoledig. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd fod yn ddolen gyswllt â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddarparu cymorth ehangach lle bo angen.

## Gwella'r gallu i adfer

### Lefel Cymru gyfan

2.75 Er bod canllawiau anstatudol ar waith ar gyfer Lloegr, a bod modd eu defnyddio yng Nghymru, ar hyn o bryd nid oes canllawiau o'r fath ar gael o safbwynt Cymru; rydym wrthi'n datblygu canllawiau i fynd i'r afael â'r bwlch hwn.



# **Rhan Tri:** Fframwaith Gwydnwch Cymru



# Ein Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol

## Ein gweledigaeth

3.1 Rydym am i Gymru fod yn genedl lle mae meddwl am wydnwch yn cael ei integreiddio i bob agwedd ar fywyd. Mae gwydnwch yn fusnes i bawb, ac rydym yn mabwysiadu dull gweithredu cymdeithas gyfan i sicrhau ein bod ni, ar lefel unigol, gymunedol, busnes, rhanbarthol a chenedlaethol, yn deall ac yn cymryd cyfrifoldeb dros leihau risg a chryfhau gwydnwch. Mae gwydnwch yn eiddo i bawb, ac mae gennym ni rôl i rymuso pawb i gyfrannu at eu gwydnwch eu hunain a gwydnwch y cymunedau lle maent yn byw. Bydd gwireddu'r weledigaeth hon yn sicrhau y bydd gennym, fel cenedl, allu cryfach i asesu a deall y risgiau sy'n ein hwynebu, wedi ei ategu gan systemau a strwythurau rhagweithiol, addasadwy a chadarn yn eu lle i gynorthwyo ymateb ac adferiad lle bo hynny'n angenrheidiol.

3.2 Ni ellir gwireddu'r weledigaeth hon oni bai fod gennym gyfranogaeth ac ymrwymiad ar bob lefel, gan y llywodraeth, partneriaid sy'n ymateb, Fforymau Lleol, mudiadau gwirfoddol a'r cymunedau eu hunain.

### Ein bwriad

3.3 Gan weithio ar draws y llywodraeth ac mewn partneriaeth agos â'r gymuned ymatebwyr a'r sector gwirfoddol, rhoi dull strategol ar waith i gryfhau gwydnwch a pharodrwydd Cymru i helpu i gadw ein dinasyddion yn ddiogel, a helpu i ddiogelu ein heconomi, ein hamgylchedd a'n seilwaith rhag effeithiau argyfyngau mawr a heriau aflonyddgar.

3.4 Fel llywodraeth, rydym eisoes wedi cymryd camau ataliol a lliniarol i fynd i'r afael â risgiau, sy'n gallu cael effaith sylweddol ar ein cymunedau a'n hamgylchedd. Enghraifft o hyn yw ein '*Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru*[10]' 'sy'n amlinellu'r camau sy'n cael eu cymryd i atal a lliniaru'r risgiau o lifogydd ac erydu arfordirol (**gweler Blwch 5**).

3.5 Gan ymgorffori gwerthoedd Cymreig nodedig fel cymuned, cydraddoldeb, cyfiawnder cymdeithasol a phartneriaeth, a rhoi anghenion y dinasyddion wrth galon ein parodrwydd, mae'r Fframwaith hwn yn defnyddio arferion gorau i roi sicrwydd bod Cymru'n barod i ymateb ac addasu i dirwedd risg sy'n esblygu. Mae hyn yn galluogi Cymru i wella ei rôl o ran meithrin gwydnwch cymunedol yn ogystal â diogelu dinasyddion, seilwaith a'r amgylchedd ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig.

3.6 Mae Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru yn gweithio o fewn sefyllfa gyllidebol heriol iawn. Mae ein hegwyddorion craidd yn adlewyrchu'r angen am yr effeithlonrwydd gorau posibl a'r angen i asesu anghenion o ran adnoddau ac archwilio'r holl opsiynau posibl ar gyfer cyllid a dull gweithredu '*Unwaith i Gymru*' i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

3.7 Mae Fframwaith Gwydnwch Cymru yn cadarnhau uchelgais hirdymor Llywodraeth Cymru i Gymru barhau i fod yn rhan annatod o drefniadau gwydnwch y Deyrnas Unedig. Mae'n egluro cysylltiadau strategol rhwng Gweinidogion Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraethau Datganoledig a phartneriaid gwydnwch ehangach sy'n pwysleisio bod Cymru wydn yn golygu bod y Deyrnas Unedig yn fwy gwydn.

---

10 **www.llyw.cymru/strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-rheoli-perygl-llifogydd-ac-erydu-arfordirol-yng-nghymru**

## Blwch 5.
# Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol Bae Hirael

Cwblhaodd Cyngor Gwynedd brosiect cynllun amddiffyn arfordirol Bae Hirael, o oedd yn werth £6 miliwn, ym Mangor. Cafodd y cynllun hwn ei gyllido gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i menter Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol.

Roedd y prosiect hwn yn ystyried Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru a Chynllun Rheoli Perygl Llifogydd Gorllewin Cymru.

Yn ardal Hirael, nododd Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Cymru y byddai'r perygl o lifogydd yn cynyddu'n sylweddol yn sgil lefel y môr yn codi, ac argymhellodd y dylai'r gwaith cynllunio hirdymor edrych ar ail-alinio ac ailddatblygu'r basn isel i ddarparu dyfodol mwy diogel ar gyfer datblygu'r ardal hon ar y glannau.

Prif fudd y prosiect oedd lleihau'r risg (o ran tebygolrwydd a chanlyniadau) o lifogydd llanw a llifogydd afonol i bobl ac eiddo yn Hirael.

Roedd y gwaith adeiladu'n cynnwys llif-fur concrid cyfnerthedig, gosod seilbyst llenni, arfwisgoedd cerrig, clwydi llifogydd ac arglawdd llifogydd i greu llinell amddiffyn linellog.

Yn ogystal â lleihau llifogydd arfordirol i 186 o gartrefi ac 8 o fusnesau, bydd y prosiect hefyd yn helpu gyda strategaeth adfywio'r gymuned yn y dyfodol. Ym maes adeiladu, mae Cyngor Gwynedd wedi gwella'r promenâd ar gyfer cerddwyr a beicwyr. Y gobaith yw y bydd yn cael ei fwynhau am genedlaethau i ddod ac y bydd yn annog teithio llesol yn y gymuned leol. Mae'r promenâd hwn yn cysylltu'r llwybr beicio a llwybr yr arfordir o Bier Bangor i Eryri gyfan a thu hwnt.



## Ein nodau

3.8 Mae ein dull gweithredu yn canolbwyntio ar y pedwar amcan strategol allweddol a ganlyn:

- Rheoli risg yn well,
- Cryfhau arweinyddiaeth, llywodraethu a sicrwydd,
- Bod yn fwy parod a galluog ac ymateb yn well, a
- Ymgysylltu'n well a bod yn fwy tryloyw.

3.9 Ym mhob amcan, mae'r Fframwaith hwn yn disgrifio ein ffordd strategol o feddwl ac yn nodi sut rydym yn bwriadu cyflawni newidiadau a manteision go iawn ar gyfer ein prif bartneriaid gwydnwch a'n cymunedau. Mae pob amcan yn cynnwys camau gweithredu, sydd eisoes wedi cael eu cyflawni yn ogystal â chamau gweithredu sy'n ofynnol yn y dyfodol.

3.10 Ar gyfer pob amcan, rydym wedi nodi canlyniadau allweddol y gallwn eu defnyddio i asesu'r gwaith o gyflawni'r camau gweithredu sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun Cyflawni Fframwaith Gwydnwch Cymru. Y canlyniadau hyn yw:

### Rheoli Risg yn Well:

- Sylfaen dystiolaeth gadarn o ran risg, sy'n dod o'r amrediad ehangaf bosibl o ddata perthnasol gan sicrhau dealltwriaeth gyffredin a chynhwysfawr o'r risgiau presennol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg.
- Perchnogion risg yn defnyddio data o ffynonellau dibynadwy i wreiddio risg mewn penderfyniadau a chefnogi gwell cynllunio, rheoli argyfwng ac adferiad.

### Cryfhau arweinyddiaeth, llywodraethu a sicrwydd:

- Gwaith partneriaeth dibynadwy, cydlynu cadarn, a threfniadau llywodraethu clir ac effeithiol, sy'n galluogi arweinyddiaeth gref ar draws y cylch gwydnwch ac sy'n ategu'r broses o wneud penderfyniadau cydgysylltiedig.
- Mae ymatebwyr brys yn cyflawni eu rhwymedigaethau statudol ac yn cael eu cefnogi gan linellau atebolrwydd a sicrwydd clir a dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau.
- Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad llawn at gryfhau gwydnwch ar draws y Deyrnas Unedig, drwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth â Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

### Bod yn fwy parod a galluog ac ymateb yn well:

- Mae gan bob partner ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli risg ac maent wedi sicrhau bod trefniadau parodrwydd priodol ar waith ar sail y dirwedd risg.
- Mae'r holl bartneriaid yn meddu ar y galluoedd ymateb ac adfer angenrheidiol, sy'n cael eu siapio gan y gwersi a nodwyd, ac sy'n cael eu profi a'u hymarfer.
- Mae trefniadau rheoli ac adfer effeithiol mewn argyfwng ar waith sydd wedi eu hymarfer yn dda, gan gynnwys, lle bo hynny'n briodol, cyfleusterau addas, TG, a chyfathrebu cadarn sy'n cael eu harwain a'u hategu gan staff cymwys, brwdfrydig sydd wedi eu hyfforddi.

## Cyfathrebu ac ymgysylltu’n well a bod yn fwy tryloyw:

- Mae gan y cyhoedd well ymwybyddiaeth o risgiau argyfyngau sifil a sut gallant gymryd camau cadarnhaol i wella eu gwydnwch eu hunain a gwydnwch eu cymunedau a’u busnesau, gyda’r trydydd sector yn chwarae rhan lawn yn yr agenda gwydnwch.
- Mwy o atebolrwydd cyhoeddus ar risg er mwyn meithrin a chynnal hyder y cyhoedd yn y camau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gadw dinasyddion yn ddiogel.

3.11 Bydd y camau gweithredu allweddol y byddwn ni, a’n partneriaid, yn eu cymryd, ynghyd ag amserlenni ar gyfer cyflawni, yn cael eu nodi yng **Nghynllun Cyflawni Fframwaith Gwydnwch Cymru**. Gan y bydd rhai o’n nodau yn cymryd amser i’w cyflawni, bydd y Cynllun Cyflawni yn nodi ein hamcanion tymor byr, tymor canolig a thymor hir. Er mwyn sicrhau bod ein camau gweithredu’n briodol, mae meysydd lle mae angen rhagor o dystiolaeth cyn gellir nodi camau gweithredu penodol. Bydd y Cynllun Cyflawni yn nodi bylchau o’r fath yn y dystiolaeth a’n dull o sicrhau bod gennym sylfaen dystiolaeth gadarn.



# Fframwaith Gwydnwch Cymru: Canlyniadau Strategol

**EIN GWELEDIGAETH** yw bod meddylfryd gwydn yn cael ei ymgorffori ym mhob agwedd ar fywyd a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

**EIN BWRIAD:** Gan weithio ar draws y llywodraeth ac mewn partneriaeth agos â'r gymuned ymatebwyr a'r sector gwirfoddol, rhoi dull strategol ar waith i gryfhau gwydnwch a pharodrwydd Cymru i helpu i gadw ein dinasyddion yn ddiogel, a helpu i ddiogelu ein heconomi, ein hamgylchedd a'n seilwaith rhag effeithiau digwyddiadau mawr a heriau aflonyddgar.

### Rheoli risg yn well

**Canlyniad 1**

Sylfaen dystiolaeth gadarn o ran risg, sy'n dod o'r amrediad ehangaf bosibl o ddata perthnasol, gan sicrhau dealltwriaeth gyffredin a chynhwysfawr o'r risgiau presennol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg.

**Canlyniad 2**

Mae perchnogion risg yn defnyddio data o ffynonellau dibynadwy i wreiddio risg mewn penderfyniadau a chefnogi gwell cynllunio, rheoli argyfwng ac adferiad.

### Cryfhau arweinyddiaeth, llywodraethu a sicrwydd

**Canlyniad 3**

Gwaith partneriaeth dibynadwy, cydlynu cadarn, a threfniadau llywodraethu clir ac effeithiol, sy'n galluogi arweinyddiaeth gref ar draws y cylch gwydnwch ac sy'n ategu'r broses o wneud penderfyniadau cydgysylltiedig.

**Canlyniad 4**

Mae ymatebwyr brys yn cyflawni eu rhwymedigaethau statudol ac yn cael eu cefnogi gan linellau atebolrwydd a sicrwydd clir a dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau.

**Canlyniad 5**

Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad llawn at gryfhau gwydnwch ar draws y Deyrnas Unedig, drwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth â Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

### Bod yn fwy Parod a Galluog ac Ymateb yn Well

**Canlyniad 6**

Mae gan bob partner ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli risg ac maent wedi sicrhau bod trefniadau parodrwydd priodol ar waith ar sail y dirwedd risg.

**Canlyniad 7**

Mae'r holl bartneriaid yn meddu ar y galluoedd ymateb ac adfer angenrheidiol, sy'n cael eu siapio gan y gwersi a nodwyd, ac sy'n cael eu profi a'u hymarfer.

**Canlyniad 8**

Mae trefniadau rheoli ac adfer effeithiol mewn argyfwng ar waith sydd wedi eu hymarfer yn dda, gan gynnwys, lle bo hynny'n briodol, cyfleusterau addas, TG, a chyfathrebu cadarn sy'n cael eu harwain a'u hategu gan adnoddau cymwys, brwdfrydig sydd wedi cael eu hyfforddi.

### Cyfathrebu ac ymgysylltu'n well a bod yn fwy tryloyw

**Canlyniad 9**

Mae gan y cyhoedd well ymwybyddiaeth o risgiau argyfyngau sifil a sut gallant gymryd camau cadarnhaol i wella eu gwydnwch eu hunain a gwydnwch eu cymunedau a'u busnesau, gyda'r trydydd sector yn chwarae rhan lawn yn yr agenda gwydnwch.

**Canlyniad 10**

Mwy o atebolrwydd cyhoeddus ar risg er mwyn meithrin a chynnal hyder y cyhoedd yn y camau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gadw dinasyddion yn ddiogel.

# Egwyddorion craidd y Fframwaith Gwydnwch

3.12 Mae'r Fframwaith hwn yn seiliedig ar yr egwyddorion craidd a ganlyn. Mae'r egwyddorion hyn yn rhyngddibynnol ac mae ganddynt yr un gwerth o ran ategu ein dull gweithredu strategol:

| Egwyddor fframwaith | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwell dealltwriaeth ar y cyd o risg** | Mae'n hanfodol ein bod ni, a'n partneriaid, yn rhannu **ymwybyddiaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth** o'r risgiau presennol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg sy'n wynebu Cymru.<br><br>Bydd y dull hwn yn cael ei ategu gan **gyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol** â phartneriaid i gynorthwyo **gwelliant parhaus** ar bob lefel, gan ddefnyddio arferion gorau a helpu i'w siapio. |
| **Canolbwyntio ar atal a pharodrwydd** | Byddwn yn defnyddio ymagwedd **dryloyw, systematig** a **chyfannol** at atal a pharodrwydd i gynorthwyo ymateb ac adferiad effeithiol, gan wneud y defnydd gorau o'r pwerau sydd ar gael i Weinidogion Cymru. |
| **Dull cyson a syml o gyflawni** | Rydym yn gwneud y defnydd gorau o wybodaeth a thystiolaeth, arbenigedd a llywodraethu, gan ganolbwyntio ar **gyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol, arloesi** (gan gynnwys y defnydd gorau o dechnoleg), **darpariaeth gydgysylltiedig** a gwaith wedi ei **symleiddio** sy'n manteisio ar arferion da ac yn helpu i'w siapio.<br><br>Gyda'n partneriaid, mae gennym drefniadau gwydnwch ar waith sy'n diwallu **anghenion, blaenoriaethau** a **deddfwriaeth** Cymru (gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)), gan gydnabod bod Cymru'n rhan annatod o **drefniadau gwrthsefyll y Deyrnas Unedig**; mae Cymru wydn yn golygu Teyrnas Unedig fwy gwydn. |
| **Dull 'cymdeithas gyfan' o ymdrin â gwydnwch** | Yn seiliedig ar ffocws ar **weithio mewn partneriaeth a chydweithio** a, lle bo'n briodol, dull gweithredu '*Unwaith i Gymru*' i fynd i'r afael â risgiau, canlyniadau ac effeithiau. |
| **Dull gweithredu '*Unwaith i Gymru*'** | Rydym yn mabwysiadu dull gweithredu '*Unwaith i Gymru*' sy'n cydnabod rôl y llywodraeth, y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ehangach, ac rydym yn grymuso ein cymunedau i wella eu hymwybyddiaeth o risgiau, gwydnwch na hunanddibyniaeth yn ystod argyfyngau. |
| **Manteisio i'r eithaf ar effeithlonrwydd** | Ymdrechu i sicrhau'r **effeithlonrwydd gorau posibl**, a theilwra, blaenoriaethu a graddoli ein dull o ddarparu, gan gydnabod ac asesu anghenion o ran adnoddau, ac archwilio'r holl ddewisiadau posibl ar gyfer sicrhau'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni lle bo angen. |

3.13 Bydd ymgorffori'r egwyddorion hyn yn ein dull gweithredu strategol yn ein helpu ni, a'n partneriaid, i barhau i wneud y gorau i bobl Cymru a sicrhau bod y systemau sydd gennym ar waith mor effeithiol â phosibl, a'u bod yn cael eu cefnogi gan weithwyr proffesiynol sydd â'r sgiliau a'r profiad priodol, i fynd i'r afael â'n hamgylchiadau sy'n newid.

## Rheoli Risg yn Well

### Cyfeiriad strategol

3.14 Yn yr amcan hwn, rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu a chynnal sylfaen dystiolaeth gadarn i sicrhau bod gennym ddealltwriaeth gyffredin a chynhwysfawr o'r risgiau presennol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg mewn argyfyngau sifil posibl.

3.15 Bydd ein sylfaen dystiolaeth risg newydd yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru a'n partneriaid yn ymwybodol o'r risgiau sy'n ein hwynebu, a bydd yn galluogi cyd-ddealltwriaeth gywir a phrydlon o'r risgiau hynny. Bwriedir i'n sylfaen tystiolaeth risg newydd, wedi ei dosbarthu, fod yn sail sylfaenol ar gyfer proses rheoli risg strategol ar gyfer asiantaethau a fforymau ledled Cymru, a bydd yn ein cynorthwyo ni a'n partneriaid yn sylweddol i fodloni gofynion parhaus Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 (y Ddeddf).

3.16 Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig i sicrhau bod ein methodoleg yn briodol ac i barhau i wella ein dull o asesu risg, gan gynnwys cymryd rhan mewn adolygiadau o fethodolegau risg gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar ei chategori Asesiad Risg Diogelwch Cenedlaethol.

3.17 Bydd ein cofrestr risg wedi ei dosbarthu yn cael ei diweddaru'n rheolaidd a'i hategu gan ein rhagolygon risg chwe misol, a bydd diweddariadau misol yn canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â'r llanw sy'n bodoli ar hyn o bryd neu sy'n debygol o godi.

3.18 Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ystyried atal a lliniaru argyfyngau fel rhan o asesiad risg, a bydd gwaith yn cael ei wneud gyda thimau polisi arweiniol fel rhan o'n gwaith i wella ein dull o asesu risg, i sicrhau bod mesurau lliniaru ac atal argyfwng yn cael eu cofnodi, lle bo hynny'n briodol.

3.19 Rydym hefyd yn cydnabod y gall nifer o risgiau waethygu a/neu raeadru, gan gynyddu eu heffeithiau unigol ac ar y cyd. Er mwyn sicrhau cysondeb a chydlyniant, byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a llywodraethau datganoledig eraill i sicrhau ein bod ni'n deall yn well sut mae risgiau'n rhyngweithio.

3.20 Un o egwyddorion allweddol y Fframwaith yw gwella gwydnwch y gymdeithas gyfan, sy'n cynnwys asesu effaith risgiau ar grwpiau agored i niwed. Yn ystod Storm Darragh, gwelsom pa mor hanfodol yw cael data cywir a chyfredol, sy'n hawdd ei rannu ar draws asiantaethau sy'n ymateb. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i ddeall y dirwedd data yn well ac i wella'r ystyriaeth a roddir i'r effeithiau anghymesur y gallai risgiau eu cael ar wahanol grwpiau ar draws sbectrwm llawn o fregusrwydd. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar y gwaith y mae eisoes yn ei wneud i wella ansawdd asesu yn y maes hwn, er mwyn sicrhau cysondeb a dull gweithredu cydgysylltiedig.

3.21 Byddwn yn parhau i adeiladu ar ein dull o fod yn barod ar gyfer risg, gan weithio gyda'r pedwar Fforwm Lleol i fynd i'r afael â bylchau mewn gallu.

3.22 Rydym yn amlinellu'r camau gweithredu, sydd eisoes wedi cael eu cymryd, yn enwedig datblygu sylfaen dystiolaeth risg newydd yng Nghymru, gan gynnwys ein cofrestr risg newydd wedi ei dosbarthu ond hefyd y meysydd lle byddwn yn canolbwyntio yn ystod y blynyddoedd nesaf i barhau i wella ein datblygiad a sicrhau bod dulliau asesu a rheoli risg cyson ledled Cymru.

**Camau gweithredu wedi eu cwblhau:**

- **Creu cofrestr risg wedi ei dosbarthu –** mae hyn yn helpu i sicrhau bod ymatebwyr categori 1 a 2 naill ai'n unigol neu yn ardaloedd eu Fforymau Lleol perthnasol yn ymwybodol o'r risgiau unigryw i Gymru, yn enwedig o ran daearyddiaeth a thopograffeg, ochr yn ochr â'r dirwedd risg ehangach sy'n esblygu. Bydd yn cefnogi partneriaid yng Nghymru i fod â'r gallu angenrheidiol i gymryd camau i liniaru, ymateb ac adfer ar ôl digwyddiadau mawr neu argyfyngau.
- **Asesu pa mor barod yw'r pedwar Fforwm Lleol** – gan ddarparu gwybodaeth ategol i'r gofrestr risg i nodi anghenion gallu sy'n flaenoriaeth.
- **Creu rhagolwg risg tymor byr i dymor canolig** – mae'r rhagolwg chwe mis hwn yn helpu'r holl bartneriaid i wella'r broses o sganio'r gorwel i ganfod a rheoli risgiau sy'n dod i'r amlwg ar draws y byd ac i gael trefniadau ar waith i sbarduno ein hymateb, hyd yn oed yn rhagofalus, yn llawer cynt er mwyn i ni fod wedi paratoi'n well os bydd y bygythiad yn cael ei wireddu.

## Dull deinamig o asesu risg

3.23 Mae ein sylfaen dystiolaeth risg yn broses barhaus a deinamig, a fydd yn gofyn am adolygiad a diweddariadau parhaus i adlewyrchu'r dirwedd risg sy'n newid o hyd. Bydd y broses hon yn cryfhau'r gallu i wrthsefyll heriau mawr sy'n tarfu er mwyn helpu i roi diogelwch i bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru.

3.24 Yn unol â'n hymateb i adroddiad Modiwl 1 Covid, rydym yn cytuno bod angen gwella dulliau asesu risg yn barhaus fel sail ar gyfer y system parodrwydd a gwydnwch gyfan. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a llywodraethau datganoledig eraill er mwyn mynd ati ar y cyd i gryfhau dulliau o asesu risg ar draws gweinyddiaethau'r Deyrnas Unedig yn ogystal â chefnogi datblygiadau mewn methodolegau risg.

## Blaenoriaethu a chysondeb

3.25 Bydd ein dull newydd o reoli risg yn darparu sail resymol ar gyfer blaenoriaethu rhaglenni gwaith a dyrannu adnoddau. Bydd yn galluogi ymatebwyr i asesu pa mor ddigonol yw cynlluniau a galluoedd, gan dynnu sylw at fesurau sy'n bodoli'n barod sy'n briodol ac sy'n rhoi modd i nodi bylchau.

3.26 Mae'r gofyniad i gynhyrchu Cofrestrau Risgiau Cymunedol sydd ar gael i'r cyhoedd yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i ymatebwyr Categori 1.

## Ymrwymiadau hyd at 2030 a thu hwnt

### Lefel y Deyrnas Unedig

3.27 Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar ei datblygiadau yn y dyfodol o gategorïau NSRA yn y Deyrnas Unedig, ac ar **wella dulliau o ddeall risgiau a allai achosi neu gynyddu'r tebygolrwydd o un arall, neu risgiau a fyddai'n cael effeithiau llawer mwy pe baent yn dod i'r amlwg ar yr un pryd**.

3.28 Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod **dulliau cyson o ran sut rydym yn asesu effaith risgiau ar grwpiau agored i niwed**.

3.29 Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a llywodraethau datganoledig eraill er mwyn **mynd ati ar y cyd i gryfhau dulliau o asesu risg ar draws gweinyddiaethau'r Deyrnas Unedig yn ogystal â chefnogi datblygiadau mewn methodolegau risg**.

### Lefel Cymru gyfan

3.30 **Byddwn yn parhau i adolygu a diweddaru cofrestr risg Cymru yn rheolaidd**.

3.31 **3Byddwn yn parhau i gynhyrchu rhagolygon risg bob chwe mis**.

3.32 **Byddwn yn adeiladu ar ein dull o asesu data pobl agored i niwed ac yn datblygu swyddogaethau ein system GIS ar-lein i wella data am bobl agored i niwed**.

3.33 Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid, gan ddefnyddio cofrestr risg Cymru i **gynorthwyo'r gwaith o flaenoriaethu cynllunio a pharodrwydd i ymateb i argyfyngau a digwyddiadau mawr ar bob lefel**. Bydd y gofrestr risg yn galluogi dealltwriaeth gywir ac ar y cyd o risgiau a blaenoriaethau angenrheidiol. Byddwn yn defnyddio ein strwythurau llywodraethu diwygiedig (Fforwm Gwydnwch Cymru, Cronfa Risg Cymru a'r is-grwpiau) i helpu i ddatblygu rhaglen galluogrwydd.

3.34 I ategu ein hymrwymiad i dryloywder, **byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd am sut mae paratoi ar gyfer risgiau**.

3.35 Er mwyn sicrhau bod pob risg yn parhau i gael ei pherchenogi a'i rheoli'n llawn, bydd Llywodraeth Cymru yn **egluro rolau a chyfrifoldebau ar gyfer y risgiau a amlinellir yng nghofrestr risg wedi ei dosbarthu Cymru** i sicrhau bod cyfrifoldebau'n cael eu gosod ar y rhai sydd yn y sefyllfa orau i'w cyflawni. Bydd hyn yn rhoi eglurder o ran atebolrwydd a chyfrifoldeb dros unrhyw risg lle mae perchnogaeth yn llai amlwg, a bydd y dull gweithredu hwn yn parhau i fod yn seiliedig ar egwyddorion sybsidiaredd ac arweinyddiaeth leol.

### Partneriaid yn y Fforymau

3.36 Grwpiau risg y Fforymau Lleol i ddefnyddio'r canllawiau technegol, sy'n ategu cofrestr risg Cymru, ar gyfer asesiadau risg lleol a chynllunio i sicrhau bod dulliau cyson yn cael eu defnyddio ar draws y pedwar fforwm lleol.

3.37 Partneriaid yn y Fforymau Lleol i gynnwys mewn asesiadau risg ystyriaeth o'r cyd-destun lleol a'r effeithiau **posibl ar bobl sy'n debygol o fod yn fwy agored i niwed**.

3.38 Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid yn y Fforymau Lleol i ddatblygu safonau clir i sicrhau bod yr holl **Gofrestrau Risgiau Cymunedol** yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd, gan gynnwys:

- Amserlenni cyson ar gyfer adolygu cofrestrau risgiau cymunedol.
- Amlder diweddariadau i'r cofrestrau risgiau cymunedol.
- Dulliau cyson o asesu risgiau ar lefel leol.

3.39 Bydd partneriaid yn y Fforymau Lleol yn blaenoriaethu gofynion o ran gallu yn unol â'r asesiadau parodrwydd.

## Arweinyddiaeth, Atebolrwydd, Llywodraethu a Sicrwydd Cryfach

### Cyfeiriad strategol

3.40 Mae'r Fframwaith hwn yn ailddatgan ein hymrwymiad i ddarparu arweinyddiaeth gref ac effeithiol ar draws y cylch gwydnwch, gan bennu'r cyfeiriad, yr uchelgais cyffredinol, a'r disgwyliadau ar gyfer parodrwydd am argyfyngau yng Nghymru. Rydym yn cydnabod bod disgwyliadau a phwysau ar strwythurau gwydnwch lleol wedi tyfu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ac nad yw hyn yn debygol o newid yn y dyfodol. Byddwn yn **cryfhau ein perthynas strategol â phartneriaid yn y Fforymau Lleol** i ddarparu cyfeiriad a chynorthwyo **rhannu gwybodaeth yn well, cydlynu strategol,** er mwyn ysgogi gwell gwydnwch ar y lefel leol.

3.41 Byddwn yn cynorthwyo ein partneriaid ar draws y gymuned argyfyngau sifil i gydweithio'n effeithiol gydag eglurder o'r newydd a hyder yn eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae hyn yn golygu sicrhau bod systemau effeithlon ar waith i gynorthwyo ymatebwyr Categori 1 a 2 i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, gan gynnwys mecanweithiau asesu ac adolygu priodol i sbarduno gwelliant parhaus.


3.42 Byddwn yn gwella trefniadau llywodraethu er mwyn gallu gwneud penderfyniadau cydgysylltiedig gyda chyfrifoldebau ac atebolrwydd clir, gan ddileu unrhyw ansicrwydd, gorgyffwrdd neu fylchau yn ein trefniadau gwydnwch.

## Blwch 6.
# Storm Darragh (Rhagfyr 2024)

Daeth Storm Darragh â glaw trwm a gwyntoedd cryf iawn i'w chanlyn, a effeithiodd ar rannau helaeth o Gymru ar oriau mân bore dydd Sadwrn (07 Rhagfyr 2024).

Arweiniodd y gwyntoedd cryfion at ddegau ar filoedd o aelwydydd heb drydan, cyflenwadau dŵr na gwasanaethau telathrebu dros sawl diwrnod ac, i rai, bron i wythnos. Y storm oedd un o'r rhai mwyaf heriol i'r sector pŵer oherwydd bod gwyntoedd cryfion yn parhau i wneud y broses o ailgysylltu yn anodd iawn. Ar ôl i'r storm ddod i ben, roedd coed wedi cwympo nid yn unig yn creu difrod sylweddol i seilwaith ynni, ond hefyd yn cau ffyrdd, a oedd yn achosi problemau mynediad. Un o'r prif bryderon yn ystod y digwyddiad oedd nifer y cwsmeriaid agored i niwed heb bŵer a'r cyfnod y bu'n rhaid i gwsmeriaid aros heb bŵer.

Un broblem a amlygwyd, a gododd yn ystod ac ar ôl y storm, oedd mynediad at ddarpariaeth data i'r rhai mwyaf anghenus, yn enwedig gan fod nifer y cwsmeriaid agored i niwed wedi cynyddu'n raddol wrth i'r dyddiau fynd heibio. Mae data cywir ac amserol yn ased pwysig i sicrhau y gallai ymatebwyr ddarparu'r gwasanaethau priodol yn brydlon i'r rhai sydd fwyaf mewn angen.




Ffynhonnel: Met Office

3.43 Byddwn yn darparu cyfarwyddyd strategol clir i ymatebwyr yng Nghymru drwy ddefnyddio pwerau Gweinidogion Cymru o dan Ran 1 o'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl i ddatblygu **rheoliadau a chanllawiau statudol** argyfyngau sifil penodol i Gymru. Bydd hyn yn sicrhau bod y disgwyliadau statudol sydd ar ymatebwyr Categori 1 a 2 yn glir ac yn gymesur, eu bod yn diwallu anghenion a blaenoriaethau Cymru a'u bod yn addas i'r diben yng ngoleuni'r hyn a ddysgwyd o'r gorffennol ac argymhellion ymchwiliadau perthnasol.

3.44 Wrth ystyried canfyddiadau adroddiad Cam 2 Ymchwiliad Grenfell ar ganllawiau rhy hir a chymhleth, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod yr arweiniad yn addas i'r diben ac yn cael ei ategu i ddarparu'r cymorth a'r cyngor angenrheidiol, sy'n gymesur ac yn ddilys i ymatebwyr er mwyn cynorthwyo cynllunio, rheoli risg a pharodrwydd yn well.

## Llywodraethu

3.45 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod mai ymatebwyr Categori 1 a 2 sy'n bennaf gyfrifol ac atebol am ymateb i argyfyngau. Fodd bynnag, mae'r cyd-destun risg sy'n newid yn gyflym yn gofyn am drefniadau llywodraethu mwy ffurfiol i'n galluogi i fynd i'r afael yn well â risgiau yn awr ac yn y dyfodol.

3.46 Mae trefniadau llywodraethu da yn allweddol, a gallant helpu i:

- sicrhau sicrwydd ar draws y ddarpariaeth aml-asiantaeth a darparu dealltwriaeth gyfannol o gyflawni a chydymffurfio;
- sicrhau bod y Fframwaith hwn a'i Gynllun Cyflawni ategol yn cael eu goruchwylio a'u cyflawni'n effeithiol;
- annog gwneud penderfyniadau cadarnach, craffu mwy ar benderfyniadau a galluogi cynllunio gwell ar gyfer y dyfodol.

**Camau gweithredu wedi eu cwblhau:**

**Cymru gyfan**
Gyda phartneriaid o Bartneriaeth Gwydnwch Cymru, rydym wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o strwythurau llywodraethu ledled Cymru. Mae manylion y strwythur newydd i'w cael yn **Atodiad 8**.

Cyflwyno trefniadau newydd ar gyfer llywodraethu gwydnwch yn Llywodraeth Cymru, sy'n darparu goruchwyliaeth ar lefel uwch.

**Partneriaid yn y Fforymau**
Mae Fforwm Gwydnwch Lleol De Cymru wedi cynnal adolygiad annibynnol o'i strwythurau llywodraethu, i wella ei drefniadau llywodraethu, gan gynnwys prosesau newydd ar gyfer penodi cadeiryddion a dirprwy gadeiryddion.

## Ymrwymiadau hyd at 2030 a thu hwnt

### Lefel y Deyrnas Unedig

3.47 Mae Cymru wydn yn golygu Teyrnas Unedig fwy gwydn. **Mae'r Fframwaith hwn yn ailddatgan ein hymrwymiad i sicrhau bod Cymru yn parhau i fod yn rhan annatod o drefniadau gwydnwch y Deyrnas Unedig**. Byddwn yn gwneud hyn drwy feithrin a chynnal cysylltiadau gwaith cryf sydd o fudd i'r ddwy ochr gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i gyflawni ein nodau gwydnwch ar y cyd.

3.48 Mae tryloywder yn allweddol i'n dull parhaus o ran parodrwydd a gallu. Mae angen i ni hefyd **gadw mewn cof nad yw risg yn cydnabod ffiniau**. Mae gan Lywodraeth Cymru rôl i'w chwarae o ran cydlynu'r ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg drwy sganio'r gorwel a byddwn yn **parhau i gasglu, coladu, dadansoddi a rhannu gwybodaeth berthnasol yn ôl yr angen**.

### Lefel Cymru gyfan

3.49 Dechrau **trefniadau llywodraethu newydd ar gyfer Cymru gyfan o fis Mai 2025 ymlaen**.

3.50 **Bydd dyletswyddau clir a syml yn ein helpu i wneud yn siŵr bod gennym y bobl iawn yn y cyfarfodydd iawn.** Fe wnawn ni weithio gyda phartneriaid i sicrhau cynrychiolaeth briodol ar bob haen o lywodraethu, sy'n cyd-fynd â'n dull gweithredu '*Unwaith i Gymru*'. Byddwn yn defnyddio'r cyfle hwn i gadarnhau cyfrifoldebau aelodau pob haen lywodraethu i raeadru gwybodaeth am gyfarfodydd i gydweithwyr perthnasol mewn Fforymau Lleol, sefydliadau a rhwydweithiau.

3.51 Byddwn yn sefydlu is-grwpiau a grwpiau gorchwyl a gorffen priodol fel y cytunir arnynt gan Bartneriaeth Gwydnwch Cymru ac sy'n **gysylltiedig â'r anghenion blaenoriaeth a nodir yng Nghofrestr Risg Cymru**.

3.52 Rydym yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr y sector gwirfoddol a grwpiau ffydd i gymdeithas yng Nghymru, gan gynnwys adeiladu cyfalaf cymdeithasol, datblygu sgiliau, gwella iechyd a llesiant, gwella cyfleoedd cyflogaeth, a chreu cydlyniant cymunedol.

3.53 Byddwn yn darparu arweiniad a chymorth i'r sector gwirfoddol ac yn gweithio gyda mudiadau'r sector gwirfoddol i'w helpu i chwarae rhan lawn mewn gweithgareddau parodrwydd am argyfwng, ymateb ac adfer pan fo hynny'n briodol. Byddwn yn sicrhau bod gan grwpiau gwirfoddol, y trydydd sector a grwpiau ffydd gynrychiolaeth briodol mewn trefniadau llywodraethu gwydnwch yn y dyfodol sy'n cyd-fynd â'n dull gweithredu '*Unwaith i Gymru*'.

3.54 Byddwn yn parhau i **gynnal, a datblygu lle bo'n briodol, drefniadau llywodraethu gwydnwch mewnol Llywodraeth Cymru** – i gynorthwyo arweinyddiaeth strategol ar draws Llywodraeth Cymru a rhoi cyngor i'r Prif Weinidog a'r Cabinet.

3.55 Mae cynlluniau gwaith cydweithredol eisoes yn bodoli o fewn fforymau gwydnwch lleol. Byddwn yn adeiladu ar ein hegwyddor '*Unwaith i Gymru*' i gadarnhau'r cysylltiadau rhwng y cyfeiriad strategol a bennir gan Fforwm Gwydnwch Cymru a darpariaeth genedlaethol a lleol gan sicrhau bod pawb yn gweithio tuag at amcanion cyson.

3.56 Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnal cymorth pwrpasol i bob Fforwm Lleol drwy Swyddog a Dirprwy Swyddog Cyswllt Llywodraeth Cymru.

### Partneriaid yn y Fforymau

3.57 Hyrwyddo dulliau cyson ar draws y pedwar Fforwm Lleol gan alluogi gwell cysylltiadau â strwythurau llywodraethu Cymru gyfan.

## Arweinyddiaeth, Atebolrwydd a Sicrwydd

3.58 Mae effeithiolrwydd ein hagwedd at wydnwch yng Nghymru yn dibynnu ar bob corff ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol, ac mae ein holl bartneriaid yn y gymuned argyfyngau sifil posibl yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau penodol. Mae arweinyddiaeth effeithiol o ran gwydnwch yn hanfodol yn ystod camau cynllunio, ymateb ac adfer argyfyngau, ac mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.

3.59 O fewn y dirwedd gwydnwch ehangach, mae dyletswyddau sefydliadau sy'n ymateb yn cael eu cyflawni, gan mwyaf, drwy weithgarwch cydlynol y Fforymau Lleol. Er bod rhai sefydliadau sy'n ymateb, ond nid pob un, yn destun trefniadau rheoleiddio ac arolygu, nid oes mecanwaith sicrwydd ffurfiol ar hyn o bryd ar gyfer y gweithgareddau a gyflawnir gan y Fforwm Lleol fel corff cyfunol. Er bod enghreifftiau rhagorol o bartneriaid ar draws gwydnwch yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd yn ystod argyfwng, rydym yn cydnabod nad oes angen dibynnu'n llwyr ar brosesau craffu hunanasesu, gwirfoddol, i sicrhau ein bod yn gallu sicrhau'r sicrwydd angenrheidiol:

a) bod yr holl gynlluniau perthnasol ar waith,
b) bod y cysylltiadau hanfodol angenrheidiol rhwng partneriaid lleol a chenedlaethol i weithio'n effeithiol gyda'i gilydd yn ystod ymateb yn eu lle, ac
c) bod ein hasiantaethau sy'n ymatebwyr yn cyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl i'r safonau uchaf.

3.60 Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yn y Fforymau Lleol i wneud y Fforymau Lleol yn fwy atebol, a byddwn yn gofyn am adroddiad blynyddol gan bob Fforwm Lleol ar sut mae'n cwrdd â'r blaenoriaethau a nodir yn y gofrestr risg newydd a'r cyfrifoldebau newydd sy'n ofynnol o dan y Fframwaith hwn a'i Gynllun Cyflawni.

3.61 Rydym eisiau sicrhau bod ein partneriaid ar draws y gymuned argyfyngau sifil posibl yng Nghymru yn deall eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u hatebolrwydd er mwyn cryfhau trefniadau partneriaethau cymdeithasol yng Nghymru a galluogi mwy o wydnwch economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a chymunedol. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno'n rhannol drwy raglen galluoedd (er enghraifft, hyfforddiant Aur Cymru sy'n darparu hyfforddiant i ymatebwyr gymryd rhan mewn Grwpiau Cydlynu Strategol) a hefyd y trefniadau llywodraethu newydd a amlinellir ym mharagraffau 3.49-3.51.

3.62 Er mwyn sicrhau llwyddiant parhaus y Fforymau Lleol, rhaid i uwch arweinwyr o'r ymatebwyr statudol barhau i chwarae rôl arwain allweddol yng ngwaith y Fforymau Lleol. Bydd angen i bartneriaid y Fforymau Lleol mewn rolau uwch yn strwythur y Fforymau Lleol feddu ar y capasiti a'r gallu perthnasol i sicrhau bod y cyfrifoldebau newydd yn cael eu cyflwyno yn y Fframwaith hwn. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yn y Fforymau Lleol a chadeiryddion y Fforymau Lleol ar sut gallwn ni gynorthwyo'r nodau hyn, a byddwn yn ystyried unrhyw arfer gorau sy'n deillio o raglen 'Fforymau Lleol cryfach' Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

3.63 Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i adeiladu ar arferion gorau presennol a'r Safonau Gwydnwch Cenedlaethol ar gyfer fforymau gwydnwch lleol i ddatblygu **fframwaith sicrwydd cenedlaethol ar gyfer Cymru**. Bydd hyn yn cael ei ategu gan **set o safonau y cytunwyd arnynt** i gefnogi gwelliant parhaus mewn rheoli risg a pharodrwydd, ac i yrru dysgu a datblygu sefydliadol. Pan fo'n bosibl, bydd y fframwaith sicrwydd newydd yn cyd-fynd â'r trefniadau arolygu presennol ac yn eu gwella, a bydd yn cael ei oruchwylio drwy ein strwythur llywodraethu ac atebolrwydd cadarn newydd.

## Ymrwymiadau hyd at 2030 a thu hwnt

### Lefel y Deyrnas Unedig

3.64 Byddwn yn parhau i adeiladu ar ein **perthynas waith gref â Llywodraeth y Deyrnas Unedig** i sicrhau bod **dulliau gweithredu priodol yn cael eu hintegreiddio**, lle bo hynny'n briodol, a rhannu arferion gorau a dysgu, a sicrhau **cydweithio trawsffiniol cryf i gyflawni ein nodau cyffredin**.

### Lefel Cymru gyfan

3.65 Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yn y gymuned o ymatebwyr i sefydlu canllawiau arweinyddiaeth argyfyngau sifil cydlynol yng Nghymru ar gyfer ymatebwyr categori 1 a chategori 2. Bydd y rhain yn adlewyrchu'n glir y dyletswyddau a'r disgwyliadau sydd arnynt mewn deddfwriaeth.

3.66 Byddwn hefyd yn nodi'n glir ein disgwyliadau mewn perthynas â rôl cadeiryddion y Fforymau Lleol i sicrhau cysondeb o ran arweinyddiaeth ledled Cymru.

3.67 Byddwn yn **sefydlu fframwaith o safonau sicrwydd argyfyngau sifil yng Nghymru**. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddefnyddio fframweithiau presennol (fel y *Fframwaith Parodrwydd am Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb (EPRR)*), prosesau ac arferion gorau (fel y *Safonau Gwydnwch Cenedlaethol ar gyfer Fforymau Lleol*) i sefydlu mecanweithiau i gefnogi asesu annibynnol, hunanasesu, adolygu cymheiriaid a meincnodi lle bo hynny'n briodol.

3.68 Gan weithio gyda phartneriaid ar lefel Cymru gyfan, byddwn yn chwilio am gyfleoedd i sicrhau'r effeithlonrwydd gorau posibl a gwella sicrwydd drwy ddefnyddio dulliau cyson ledled Cymru, lle bo hyn yn briodol ac yn arwain at gynllunio, parodrwydd ac ymateb mwy effeithiol.

3.69 Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi **Adroddiad Cyflwr Gwydnwch** i'r Senedd (bob 4 blynedd) ar lefelau parodrwydd ledled Cymru. Bydd hyn yn ystyried asesiadau gan lefelau sefydliadol (ymatebwyr a'r Llywodraeth), rhanbarthol (Fforymau Gwydnwch Lleol) a chenedlaethol (Partneriaeth Gwydnwch Cymru).

### Partneriaid yn y Fforymau

3.70 Er mwyn darparu camau gweithredu clir ar draws y pedwar Fforwm Lleol, **bydd pob Fforwm Lleol yn llunio adroddiad blynyddol i'r Prif Weinidog**. Bydd yr adroddiadau hyn yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- Y prif risgiau sy'n flaenoriaeth ym mhob maes.
- Unrhyw fater a nodwyd yn yr ardal.
- Hyfforddiant ac Ymarfer.
- Sicrwydd ynghylch parodrwydd aml-asiantaeth a'r gallu i ryngweithredu, a blaenoriaethau ar eu cyfer.

# Bod yn fwy Parod a Galluog ac Ymateb yn Well

## Cyfeiriad strategol

3.71 Yn yr amcan hwn, rydym yn canolbwyntio ar barodrwydd ac ymateb effeithiol drwy nodi a chryfhau'r bobl, y prosesau a'r sefydliadau sy'n gweithio mewn ac ar gyfer argyfyngau sifil posibl. Prif nod yr amcan hwn yw sicrhau bod y galluoedd adfer, ymateb a chynlluniau angenrheidiol ar waith, a'u bod yn cael eu siapio gan wersi o'r gorffennol ac yn cael eu profi drwy hyfforddiant ac ymarfer yn rheolaidd. Mae'n hanfodol ein bod ni'n adeiladu ar y sylfeini cadarn, sy'n bodoli ar hyn o bryd, er mwyn parhau i gryfhau ein parodrwydd a'n hymateb ar gyfer yr heriau sydd o'n blaenau.

3.72 Mae risgiau, argyfyngau a digwyddiadau sy'n tarfu yn gallu niweidio economïau lleol, effeithio ar lesiant ac effeithio'n sylweddol ar ein nod llesiant o gymunedau gwydn. Nid yw pob ardal yn cael ei heffeithio'n union yr un fath, ac yn aml iawn, yr ardaloedd sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau yw'r rhai sy'n cael eu heffeithio fwyaf.

3.73 Drwy wella dealltwriaeth o'r gwersi a nodwyd a'r dirwedd risg ehangach sy'n esblygu, gallwn nodi bylchau a thrwy hynny wella effeithiolrwydd. Byddwn yn cefnogi ein partneriaid, ar draws y gymuned ymatebwyr, i sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau priodol, yn cyflawni eu dyletswyddau statudol ac yn cael mynediad at yr hyfforddiant a'r datblygiad angenrheidiol i fynd i'r afael ag unrhyw fwlch mewn sgiliau.

3.74 Gyda'n partneriaid, byddwn yn parhau i adeiladu ar y gofyniad cyfreithiol o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 i sicrhau bod unigolion yn cael eu hyfforddi ar gyfer y rolau mae disgwyl iddynt eu cyflawni. Ein nod yw sicrhau dull gweithredu aml-asiantaeth, integredig sy'n canolbwyntio ar y gymuned, a gwella gallu ymatebwyr i baratoi ar gyfer digwyddiadau sifil wrth gefn a'u rheoli.

3.75 Mae grymuso ein cymunedau i feithrin eu gwydnwch yn hanfodol, a byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid a'r trydydd sector i alluogi ein cymunedau i fod wedi paratoi'n well a gallu ymateb i ddigwyddiadau ac adfer ar eu hôl. Un o'r nodau allweddol yw helpu i rymuso ein Fforymau Lleol a'n partneriaid lleol i ystyried, gyrru a gwella gwydnwch ar draws y mannau maent yn gyfrifol amdanynt. Gan weithio gyda'n Fforymau Lleol, byddwn yn ceisio eu cynorthwyo drwy ddarparu canllawiau gwell ond hefyd i chwilio am gyfleoedd i sicrhau'r effeithlonrwydd gorau posibl drwy gyflawni ar lefel Cymru gyfan, gan ddefnyddio ein hegwyddor '*Unwaith i Gymru*'. Un o'r prif amcanion yw sicrhau bod cymorth yn cael ei roi i'r rhai sydd â'r angen mwyaf drwy nodi'r cymunedau hynny sydd fwyaf agored i risgiau allweddol a mynd i'r afael â'r gwendidau hyn er mwyn meithrin gwydnwch.

3.76 Cyn 2018, roedd gan Weinidogion Cymru allu cyfyngedig i gyfarwyddo a dylanwadu ar strwythurau argyfyngau sifil a'r ymatebwyr categori 1 a 2 cysylltiedig yng Nghymru. Nid yw hyn yn wir mwyach, yn dilyn trosglwyddo swyddogaethau yn 2018. O dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, mae'r ddeddfwriaeth yn awr yn rhoi pwerau uniongyrchol i Weinidogion ynghylch bod yn barod am ddigwyddiadau wrth gefn sifil, ac ymateb iddynt.

## Parodrwydd

3.77 Mae'r holl risgiau ac argyfyngau a'u heffeithiau yn lleol yn y bôn, a dim ond rhai sy'n gymwys ar lefel Cymru gyfan. Bydd gwaith y rhai sy'n ymateb drwy'r Fforymau Lleol yn parhau i fod yn floc adeiladu ar gyfer gwydnwch yng Nghymru o hyd. Er bod nifer o enghreifftiau o bartneriaid yn cydweithio mewn ymateb i ddigwyddiad, mae meysydd i'w gwella i sicrhau cydweithio effeithiol rhwng partneriaid. Mae hyn ar lefel leol, ar draws Cymru, ac, oherwydd nad yw digwyddiadau'n parchu ffiniau, ar gyfer digwyddiadau sy'n ymestyn dros y ffin i Loegr.

3.78 Mae'n hanfodol bod yr haen leol yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth sydd ei hangen arni er mwyn gwneud penderfyniadau lleol ar sail gwybodaeth. Mae ein strwythurau ymateb newydd sy'n gryfach ac yn symlach yn helpu i ategu hyn.

3.79 Roedd yr *Adolygiad ôl-weithredu diweddar o'r Ddeddf*[11] yn egluro bod egwyddorion craidd sybsidiaredd ac arweinyddiaeth leol yn dal yn allweddol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod galwadau cynyddol ar ein pedwar fforwm gwydnwch lleol. Dywedwyd yn Ymchwiliad Arena Manceinion, Cyfrol 2, fod angen ystyried sut bydd fforymau gwydnwch lleol yn cael eu cyllido'n gyson ac yn ddigonol i'w galluogi i wneud eu gwaith pwysig. Yn 2024-2025, fe wnaethom ddarparu cyllid i'n pedwar Fforwm Lleol yng Nghymru am y tro cyntaf, a byddwn yn parhau i geisio darparu rhagor o gyllid i gynorthwyo'r gwaith hanfodol sy'n cael ei wneud gan ein Fforymau Lleol i gefnogi cynllunio aml-asiantaeth, parodrwydd a sicrhau bod bylchau o ran gallu yn cael sylw (**gweler Blwch 7**).

## Gwydnwch a pharodrwydd y gymuned

3.80 Rydym hefyd yn cydnabod y rôl y gall cymunedau ei chwarae o ran meithrin sgiliau, gwybodaeth ac adnoddau i gynorthwyo gwydnwch lleol a chenedlaethol. Mae gwydnwch cymunedol yn seiliedig ar ddiwylliant o barodrwydd, lle mae unigolion, cymunedau a sefydliadau yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb i baratoi ar gyfer argyfyngau, ymateb iddynt ac adfer ar eu hôl. Mae hon yn agwedd bwysig ar ein dull 'cymdeithas gyfan' o ymdrin â gwydnwch.

3.81 Mae gwydnwch cymunedol yn cael ei alluogi pan fydd y cyhoedd yn cael eu grymuso i harneisio adnoddau ac arbenigedd lleol i helpu eu hunain a'u cymunedau i wneud y canlynol:

- paratoi, ymateb ac adfer ar ôl heriau aflonyddgar, mewn ffordd sy'n ategu gweithgarwch ymatebwyr brys categori 1 a 2;
- cynllunio ac addasu i newidiadau cymdeithasol ac amgylcheddol hirdymor i sicrhau eu ffyniant a'u gwydnwch yn y dyfodol.

3.82 Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol, fforymau gwydnwch lleol a sefydliadau'r sector gwirfoddol a'r trydydd sector i wella ein dull gweithredu ar gyfer gwydnwch cymunedol yng Nghymru, gan gynnwys defnyddio rhaglenni cyllido sy'n bodoli'n barod i gynorthwyo a chydlynu gweithgareddau hyfforddi.

3.83 Byddwn yn datblygu parodrwydd a gallu o'r gwaelod i fyny. Byddwn yn dysgu o weithgareddau peilot ledled y Deyrnas Unedig ac arferion gorau rhyngwladol i lywio dull Cymreig o gydlynu adnoddau lleol cyn, yn ystod ac ar ôl argyfwng.

11 www.gov.uk/government/publications/civil-contingencies-act-2004-post-implementation-review-report-2022

Blwch 7.

## Cyllido'r Fforymau Lleol yng Nghymru

Mae pedwar Fforwm Lleol yng Nghymru ac mae pob un yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o hwyluso dull aml-asiantaethol, cydgysylltiedig o gynllunio'n lleol er mwyn sicrhau bod ymatebwyr categori 1 a chategori 2 yn gallu cyflawni eu dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.

Mae partneriaid yn y Fforymau Lleol yn darparu cyllid fel bod modd cydlynu Fforymau Lleol a chynhyrchu dogfennau allweddol (cynlluniau brys), hyfforddiant yn ogystal ag ymarfer.

Tan yn ddiweddar, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth ariannol i gynorthwyo Fforymau Lleol. Fodd bynnag, er mwyn galluogi Fforymau Lleol i sicrhau gwydnwch yng nghymunedau Cymru, yn 2024 fe wnaethom ddarparu cyllid drwy daliad cynllun peilot un flwyddyn o £30,000 i bob Fforwm Lleol.

Gan weithio gyda chydlynwyr y Fforymau Lleol, rydym wedi gallu nodi'r anghenion y bydd y cyllid yn mynd i'r afael â nhw a rhoi trefniadau monitro a gwerthuso addas ar waith i ddangos tystiolaeth o effaith y buddsoddiad a sicrhau gwerth am arian.

3.84 Rydym wedi ymrwymo i gynyddu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r bregusrwydd sylfaenol yn ein cymunedau, gan gynnwys sicrhau ein bod ni, a'n partneriaid, yn gallu nodi grwpiau sy'n agored i niwed ac mewn perygl yn well er mwyn sicrhau bod modd blaenoriaethu cymorth mwy penodol sydd wedi ei deilwra mewn unrhyw ddigwyddiad. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd gweithio gyda phartneriaid lleol a chenedlaethol a'r bobl mewn cymunedau yn hanfodol i hyn. Byddwn yn parhau i ailadrodd y system JIGSO aml-asiantaeth (**gweler Blwch 8**) i sicrhau bod partneriaid yn gallu adnabod ein dinasyddion mwyaf agored i niwed mewn cyfnod o argyfwng. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â grwpiau cydraddoldeb a chymunedol i ddatblygu'r data sydd ar gael, yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

**Camau a gymerwyd:**

**Siarter ar gyfer Teuluoedd mewn Profedigaeth** – mae Llywodraeth Cymru a nifer fawr o sefydliadau ymatebwyr yng Nghymru wedi llofnodi'r Siarter i gadarnhau eu hymrwymiadau i gynorthwyo teuluoedd mewn profedigaeth a'r gymuned yn ystod ac yn dilyn digwyddiad o bwys.

**Cyllid ar gyfer y Fforymau Lleol** – mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i'r pedwar Fforwm Lleol yn 2024-25 i gynorthwyo'r gwaith o ddarparu hyfforddiant a meithrin gallu a gwaith aml-asiantaeth.

## Ymrwymiadau hyd at 2030 a thu hwnt

### Lefel Cymru gyfan

3.85 Byddwn yn gweithio gyda'n cymuned o ymatebwyr i adolygu Rheoliadau 2005 ac asesu pa mor briodol ydynt i roi'r cyfarwyddyd angenrheidiol i ymatebwyr gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl. Byddwn yn ystyried yr anghenion a'r blaenoriaethau yng Nghymru ac yn datblygu polisi yn unol â hynny a rheoliadau Cymru lle bo hynny'n briodol.

3.86 Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i ddatblygu canllawiau priodol, i sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn darparu'r cymorth angenrheidiol a'r arweiniad sydd ei angen ar y gymuned argyfyngau sifil posibl i gyflawni eu dyletswyddau statudol yn effeithiol.

3.87 Lle bo'n briodol, byddwn yn ceisio gwella a chynnal darpariaeth i gynorthwyo cydlynu aml-asiantaethol/gwaith y Fforymau Lleol.

3.88 Gan weithio gyda'n partneriaid, byddwn yn cynorthwyo rhwydweithiau cymunedol i ddeall eu galluoedd a chael gafael ar adnoddau ac offer i gynorthwyo camau gweithredu ar y cyd.

3.89 Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol, Fforymau Lleol a'n partneriaid trydydd sector i wella ein dull gweithredu ar gyfer gwydnwch cymunedol yng Nghymru. Gyda'n gilydd, byddwn yn helpu i rymuso cymunedau lleol i feithrin eu gwydnwch er mwyn eu galluogi i fod yn fwy parod a gallu ymateb i argyfyngau a gwella ar eu hôl, yn ogystal â sicrhau bod trefniadau cymunedol yn cael eu cysylltu i ymatebion ehangach sy'n cael eu cydlynu, pan a lle bo angen.

3.90 Mae ein partneriaid yn y trydydd sector yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gefnogi gwydnwch ar lefel leol a chenedlaethol. Rydym eisiau cryfhau ein cysylltiadau â'r trydydd sector i sicrhau y gallwn ni ddefnyddio eu gwybodaeth a'u galluoedd i'w hintegreiddio i weithgareddau gwydnwch a rheoli argyfwng a datblygu polisïau ar lefel leol a chenedlaethol. Byddwn yn gweithio gyda Grŵp Gwydnwch Cymunedol Cymru i helpu i gefnogi eu rhaglen waith.

### Partneriaid yn y Fforymau

3.91 Fforymau Lleol i ddefnyddio cofrestr risg Cymru i helpu i flaenoriaethu cynllunio a pharodrwydd.


3.92 Fforymau Lleol i gytuno ar y dull strategol o ymdrin â gwydnwch cymunedol yn eu hardal.

## Blwch 8.
# JIGSO

Mae JIGSO yn darparu mapio amser real o ardal dan sylw, gan nodi eiddo neu strydoedd sy'n agored i niwed a thrwy hynny alluogi ymatebwyr i weithredu lle mae hynny'n bwysig. Mae JIGSO yn galluogi setiau data craidd heb eu personoli Cymru i fod ar gael i'r gymuned wydnwch, fel gwasanaeth di-dâl i'w ddefnyddio.

Mae JIGSO wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus ledled Cymru i nodi aelwydydd a lleoliadau sydd mewn perygl o lifogydd – er enghraifft, ysbytai a chartrefi gofal, er mwyn gallu cydlynu'r ymatebion blaenoriaeth. Mae'r mynediad cyflym hwn at wybodaeth yn parhau i wneud gwahaniaeth.

Mae integreiddio data lleoliad ar y lefel hon yn cynorthwyo'r gymuned wydnwch i gynllunio ac ymateb i unrhyw ddigwyddiad mawr mewn ffordd lawer mwy gwrthrychol, gan arwain at ganlyniadau llawer gwell i ddinasyddion. Yn ei dro, mae hyn yn helpu cymunedau i baratoi ar gyfer digwyddiadau mawr sy'n arwain at lai o ddifrod i eiddo a diogelu'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.




Ffynhonnel: JIGSO

3.93 Fforymau Lleol i gadw golwg ar wydnwch cymunedol ar draws y Fforwm Lleol.

3.94 Blaenoriaethu cymorth i'r unigolion a'r cymunedau hynny y bernir eu bod yn wynebu mwy o risg e.e. oherwydd eu lleoliad, eu daearyddiaeth, eu demograffeg, eu hamgylchiadau.

## Gallu

3.95 Elfen ganolog o wydnwch yw ein gallu i ymateb i argyfyngau sifil ac adfer ar eu hôl.

3.96 Mae sefydlu ein cofrestr risg wedi ei dosbarthu yn rhoi cyfle i ni gysoni ein dull o wella ein parodrwydd a'n gallu â'r risgiau presennol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru. Rhaid i ni hefyd weithio gyda'n partneriaid i ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau mawr, argyfyngau, hyfforddiant ac ymarfer, a'r argymhellion sydd wedi eu cynnwys mewn ymchwiliadau cyhoeddus, er mwyn helpu i wella ein galluoedd yn barhaus ar lefel Cymru gyfan.

3.97 Byddwn yn datblygu **cofrestr gwersi a nodwyd i Gymru gyfan**, a fydd yn ein helpu i ddarparu tystiolaeth glir y gellir ei harchwilio i ddangos sut mae gwersi wedi cael eu dysgu a sut a ble mae'r gwaith dysgu hwnnw wedi cael ei gymhwyso ar bob lefel.

3.98 Byddwn hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu **fframwaith ôl-drafodaeth ar gyfer Cymru**, a fydd yn golygu bod modd adolygu digwyddiadau ac ymarferion mewn ffordd gyson, gan ymgorffori dull integredig o nodi gwersi, sy'n cyd-fynd â'r gofrestr o wersi a nodir ledled Cymru.

3.99 Yn ganolog i'n cynllun cyflawni, byddwn yn ffurfioli ein dull aml-asiantaeth, aml-bartner o ymdrin â galluoedd, gan gynnwys rheoli a monitro gwersi a nodwyd a hyfforddiant ac ymarfer ledled Cymru.

**Camau a gymerwyd:**

- O fewn Llywodraeth Cymru, rydym eisoes wedi datblygu '*System Rheoli Gwersi*' newydd i gasglu'r gwersi a ddysgwyd at ei gilydd o ddigwyddiadau, ymarferion ac ymchwiliadau o safbwynt y sefydliad. Mae hyn yn ein helpu i flaenoriaethu ein rhaglen galluoedd a nodi meysydd allweddol i'w gwella.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i Fforymau Lleol Cymru yn ystod 2024-25, sydd wedi cefnogi amrywiaeth o gyfleoedd ac ymarferion hyfforddi.

## Ymrwymiadau hyd at 2030 a thu hwnt

### Lefel y Deyrnas Unedig

3.100 Gweithio gyda phartneriaid ledled y Deyrnas Unedig i gyfrannu at gynllunio a darparu ymarferion lefel aml-asiantaeth cenedlaethol yn effeithiol.

3.101 Mewnbynnu a rhannu arferion gorau, canllawiau a gwersi a ddysgwyd gan ei gilydd drwy sefydliadau allweddol fel Academi Gwydnwch y Deyrnas Unedig.

### Lefel Cymru gyfan

3.102 Byddwn yn cynhyrchu adolygiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r **gweithgareddau cynllunio ar gyfer argyfyngau a pharodrwydd presennol ar gyfer Cymru gyfan** i gynorthwyo'r gwaith o wella ein gwydnwch a'n galluoedd ymateb yn barhaus. Bydd yr adolygiad yn edrych ar fanteision posibl cydlynu a chomisiynu hyfforddiant ac ymarfer parodrwydd am argyfwng, gan gynnwys nodi, dadansoddi a gweithredu gwersi ac argymhellion, ar sail genedlaethol.

3.103 Gan weithio gyda phartneriaid, byddwn yn edrych ar fanteision buddsoddi mewn adnoddau aml-asiantaeth ar draws Cymru gyfan er mwyn galluogi dull gweithredu cydgysylltiedig ar gyfer dysgu parhaus o ran cynllunio, hyfforddi, ymarfer a rheoli gwersi a nodwyd.

3.104 Gan adeiladu ar argymhellion Ymchwiliad Arena Manceinion, byddwn yn datblygu cofnod o wersi a nodwyd ledled Cymru a fydd yn darparu tystiolaeth glir y gellir ei harchwilio i ddangos sut mae gwersi wedi cael eu dysgu a sut a ble maent wedi cael eu defnyddio. Bydd hyn yn galluogi creu cysylltiadau strategol rhwng y log o wersi a nodwyd, cofrestr risg Cymru, y prosbectws Datblygu a Dysgu ar gyfer Argyfyngau Sifil ynghyd â chynlluniau ymateb ar lefel sefydliadol, rhanbarthol a chenedlaethol. Byddwn hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i sefydlu fframwaith ôl-drafodaeth sy'n gyson i Gymru. Bydd hyn yn golygu bod modd adolygu digwyddiadau ac ymarferion yn gyson, gan wreiddio dull integredig o ymdrin â gwersi a nodwyd sy'n cyd-fynd â'r cofnod a nodir ar gyfer gwersi Cymru gyfan. Bydd cefnogi mynediad at ddysgu a datblygu a darparu ymarfer a hyfforddiant yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru.

3.105 Byddwn yn sefydlu **rhaglen parodrwydd a gallu Cymru gyfan** i gynorthwyo'r holl bartneriaid yn y gymuned argyfyngau sifil posibl i gymryd rhan mewn hyfforddiant rheolaidd ac ymarfer cyfleoedd ar lefel y Deyrnas Unedig, yn genedlaethol ac yn lleol. Byddwn yn gwneud hyn drwy adeiladu ar ein sylfaen dystiolaeth i helpu i nodi blaenoriaethau. I gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu'r rhaglen hon, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i edrych ar opsiynau ar gyfer cynnwys elfennau sy'n benodol i Gymru yn Arolwg Galluogrwydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Yn y tymor hwy, byddwn yn edrych ar ymarferoldeb datblygu ein harolwg galluogrwydd ein hunain ar gyfer Cymru. Bydd hyn yn cael ei ategu gan gylch parhaus o 'ddiwrnodau gallu' ym mhob Fforwm Lleol i roi cyfle i'r holl bartneriaid arddangos a rhannu galluoedd arbenigol i godi ymwybyddiaeth a sbarduno dysgu ar draws y gymuned ymatebwyr.

3.106 Byddwn hefyd yn dechrau gweithio gyda'r byd academaidd a phartneriaid yn llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig i archwilio dewisiadau i ddatblygu **cymwysterau cydnabyddedig ar gyfer amddiffyn sifil a pharodrwydd am argyfwng**, drwy gynhyrchu llwybr datblygu clir ar gyfer y proffesiwn.

3.107 Byddwn hefyd yn bwrw ymlaen â'r gwaith o ddarparu **prosbectws dysgu a datblygu argyfyngau sifil ar gyfer Cymru** er mwyn darparu amcanion clir a chyson ar gyfer dysgu a datblygu i'r holl bartneriaid ar draws y gymuned sy'n ymateb er mwyn eu cynorthwyo i sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r arbenigedd priodol sydd eu hangen i gyflawni eu dyletswyddau statudol. Bydd hyn yn sicrhau bod gan ymatebwyr categori 1 a chategori 2 y gallu, y capasiti a'r adnoddau i barhau i ddarparu arweinyddiaeth effeithiol ar draws y dirwedd argyfyngau sifil posibl yng Nghymru. Bydd hefyd yn cynorthwyo ymatebwyr Categori 1 a Chategori 2 yng Nghymru i barhau i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf, hyd eithaf eu gallu, a rhoi sicrwydd i Weinidogion Cymru a dinasyddion bod Cymru'n barod i ymateb ac addasu i'r dirwedd risg ehangach sy'n esblygu.

### Partneriaid yn y Fforymau

3.108 Y Fforymau Lleol i ddefnyddio'r asesiadau parodrwydd ar gyfer eu Fforwm Lleol i flaenoriaethu hyfforddiant ac ymarfer galluogrwydd.

3.109 Lle bo'n briodol, dylid defnyddio dull *Unwaith i Gymru* i fynd i'r afael â bylchau mewn gallu.

3.110 Dylai pob un o'r Fforymau Lleol a'r sefydliadau feddu ar eu **Systemau Rheoli Gwersi** eu hunain gan sicrhau goruchwyliaeth ac atebolrwydd i sicrhau tystiolaeth o ddysgu o brofiad, mewn modd cyson a pharhaus, gan gau'r ddolen rhwng nodi problem a chyflawni gwelliannau parhaus ac ymarferol mewn ymateb.

## Ymateb

3.111 Fel yr amlinellwyd yn Rhan 1, mae nifer o wahanol fathau o risgiau rydym wedi eu profi yng Nghymru. Mae ambell un yn rhai tymor byr (Storm Darragh), tra gall eraill bara am gyfnodau estynedig (er enghraifft, y pandemig Covid). Gellir disgrifio rhai risgiau fel rhai acíwt (llifogydd) ac eraill fel rhai cronig (argyfwng iechyd parhaus).

3.112 Mae angen i ni gael gweithdrefnau ymateb cadarn ar waith, sy'n ddigon hyblyg a phriodol i fynd i'r afael â'r gwahanol fathau hyn o risgiau, oherwydd mae'n bosibl na fydd y broses yn union yr un fath.

3.113 Gan fod risgiau ac argyfyngau a'u heffeithiau yn lleol yn bennaf; mae gan Fforymau Lleol ran allweddol yn y gwaith cynllunio ar gyfer risgiau a nodwyd. Bydd y gwaith aml-asiantaeth ar draws yr elfennau cynllunio, paratoi, ymateb ac adfer ar y lefel leol yn parhau i fod yn rhan bwysig o wydnwch Cymru. Fodd bynnag, mae rhai adegau pan fydd angen dull gweithredu Cymru gyfan, a Llywodraeth Cymru sy'n darparu'r cyfeiriad strategol.

3.114 Mae Llywodraeth Cymru yn glynu wrth egwyddor sybsidiaredd sydd wedi hen ymsefydlu ac sy'n arfer gorau wrth gynllunio ar gyfer argyfyngau, yn yr un modd â holl weinyddiaethau'r Deyrnas Unedig, lle mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y lefel briodol isaf, tra bod cydgysylltu'n digwydd ar y lefel angenrheidiol uchaf. Er mwyn diwallu'r egwyddor hon, mae Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu model yr adran arweiniol i gynnwys pob cam o asesu risg, paratoi ar gyfer argyfwng, ymateb ac adfer. Mae hyn yn golygu bod timau polisi arweiniol yn gyffredinol yn gyfrifol am arwain yr ymateb strategol i argyfwng, sy'n dod o fewn eu maes polisi. Fodd bynnag, os bydd argyfwng system gyfan am gyfnod hir, rydym yn cydnabod bod gan fodel adran y llywodraeth arweiniol gyfyngiadau, ac mae'n bosibl y bydd angen model gwahanol.

3.115 Mae ein trefniadau llywodraethu newydd drwy ein Pwyllgor Risg a Pharodrwydd a'n strwythurau rheoli argyfwng yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn. Mae hyn yn sicrhau dull trawslywodraethol o ymdrin â pharodrwydd a hefyd ymateb, yn enwedig pan fydd digwyddiad yn effeithio ar nifer o feysydd polisi gwahanol. Mae ein strwythurau cydlynu canolog yn galluogi cydlynu a rhannu gwybodaeth a data yn fwy effeithiol.

3.116 Yn Llywodraeth Cymru, rydym yn cydnabod bod angen sicrhau bod ein prosesau ein hunain yn briodol, felly rydym yn barod ar gyfer heriau yn y dyfodol. Byddwn yn cynnal adolygiad o ba mor barod yw adrannau arweiniol ac yn darparu hyfforddiant i sicrhau bod gan dimau polisi adnoddau medrus priodol i ddarparu'r cymorth angenrheidiol yn ystod unrhyw ymateb. Er mwyn darparu eglurder ar ein prosesau, byddwn yn cynhyrchu Cysyniad Gweithrediadau ar ein hymateb i reoli argyfyngau yn Llywodraeth Cymru.

3.117 Bydd strwythurau rheoli argyfwng ein huned wydnwch ganolog yn parhau i fod yn fecanwaith allweddol i Lywodraeth Cymru ymateb yn gyflym i argyfyngau, sy'n galw am gydlynu trawslywodraethol ac yn gofyn am benderfyniadau ar frys. I ategu ein strwythurau rheoli argyfwng, byddwn yn gwella ein capasiti data drwy greu tîm bach newydd ar ddata gwydnwch.

3.118 Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i gynnal adolygiad llawn o ***Gynllun Ymateb Cymru Gyfan*** i sicrhau ei fod yn dal yn addas i'r diben ac yn adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd yn ddiweddar. Rydym eisiau sicrhau bod Cynllun Ymateb Cymru Gyfan yn darparu canllawiau priodol lle a phan fydd eu hangen.

3.119 Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn hefyd yn adolygu effeithiolrwydd cyfleusterau presennol i ddarparu cydleoliad, pan fydd ei angen, ac yn adolygu ein prosesau a'n systemau i sicrhau ein bod yn gallu darparu'r lefelau priodol o gydlynu, casglu a lledaenu gwybodaeth ledled Cymru.

3.120 Byddwn hefyd yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o gynlluniau eraill ar draws Cymru gyfan i weld a ddylid eu cyfuno'n fframweithiau mwy hyblyg, y gellir eu diwygio'n rhwydd yn wyneb y dysgu a nodir drwy brofion ac ymarfer.

3.121 Drwy weithio gyda phartneriaid, byddwn yn parhau i adeiladu ar y gofynion cyfreithiol o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 i sicrhau bod unigolion yn cael eu hyfforddi ar gyfer y rôl y mae disgwyl iddynt ei chyflawni. Byddwn yn ailadrodd ac yn gwella ein cynnig hyfforddiant i swyddogion strategol yng Nghymru, gan ystyried gwersi allweddol ac arferion nodedig o ymchwiliadau cyhoeddus, ymarfer a digwyddiadau/argyfyngau mawr.

**Camau a gymerwyd:**

Rydym wedi datblygu a gweithredu prosesau rheoli argyfwng newydd yn Llywodraeth Cymru, wedi eu hategu gan strwythurau llywodraethu gwydnwch newydd.

Er mwyn ategu'r adolygiad o Gynllun Ymateb Cymru Gyfan, cynhaliwyd ymgynghoriad gyda phartneriaid ar briodoldeb y cynllun.

## Ymrwymiadau hyd at 2030 a thu hwnt

### Lefel y Deyrnas Unedig

3.122 Byddwn yn parhau i weithio gyda llywodraeth y Deyrnas Unedig a llywodraethau datganoledig eraill ar faterion sy'n ymwneud ag ymateb 'system gyfan', sydd â goblygiadau ar lefel y Deyrnas Unedig gyfan.

3.123 Byddwn yn parhau i weithio gyda llywodraeth y Deyrnas Unedig ar ddulliau rheoli argyfwng i sicrhau bod trefniadau gweithio effeithiol ar waith ar gyfer digwyddiadau sydd â goblygiadau trawsffiniol neu sy'n berthnasol ar lefel y Deyrnas Unedig gyfan.

### Lefel Cymru gyfan

3.124 Byddwn yn adolygu ein cyfleusterau rheoli argyfyngau presennol ar lefel Llywodraeth Cymru (Canolfan Cydlynu Argyfyngau Cymru) i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion ymateb modern aml-asiantaethol i ddigwyddiadau yn llawn.

3.125 Byddwn yn parhau i ddysgu o'r arferion gorau ar draws y Deyrnas Unedig i sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i gynorthwyo a chydlynu ymateb Cymru i ddigwyddiadau ac argyfyngau mawr.

3.126 Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i adolygu *Cynllun Ymateb Cymru Gyfan* i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion Llywodraeth Cymru a'n partneriaid ac yn darparu arweiniad effeithiol ar ein trefniadau rheoli argyfwng ar gyfer y dirwedd risg fodern.

3.127 Er mwyn cynorthwyo *Cynllun Ymateb Cymru Gyfan*, byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid sy'n ymatebwyr i sicrhau bod canllawiau statudol ac anstatudol ar gael lle bo hynny'n briodol. Byddwn yn sicrhau bod yr holl ganllawiau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.

3.128 Gan ddefnyddio ein strwythurau llywodraethu Cymru gyfan newydd, byddwn yn cynorthwyo rhaglenni hyfforddi ac ymarfer i sicrhau bod unigolion yn gallu cyflawni'r rôl mae disgwyl iddynt ei chyflawni i gyflawni eu dyletswyddau statudol.

3.129 Byddwn hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i sefydlu fframwaith ôl-drafodaeth sy'n gyson i Gymru. Bydd hyn yn golygu bod modd adolygu digwyddiadau ac ymarferion yn gyson, gan wreiddio dull integredig o ymdrin â gwersi a nodwyd sy'n cyd-fynd â system rheoli gwersi Cymru gyfan.

### Partneriaid yn y Fforymau

3.130 Ymatebwyr Categori 1 a 2 i adeiladu ar arferion cydweithredol presennol chwilio am gyfleoedd pellach i rannu arferion gorau o ran sicrhau ymateb aml-asiantaeth effeithiol a chydgysylltiedig i ddigwyddiadau.

3.131 Adolygu a gwella hyfforddiant ar gyfer cynrychiolwyr sefydliadol ar Grwpiau Cydgysylltu Strategol (SCG) (Aur Cymru) ac ar Grwpiau Strategol Tactegol (Arian Cymru), gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer cadeiryddion y Grwpiau Cydgysylltu Strategol.

## Adfer

3.132 Mae adferiad yn gam allweddol yn y cylch gwydnwch a gall fod yn hanfodol o ran lleihau effeithiau argyfyngau, ar yr un pryd â chynorthwyo gwaith rheoli risg yn y dyfodol. Gall adferiad fod y cam mwyaf cymhleth hefyd, sy'n gofyn am ddulliau cynhwysol a chyfranogol, myfyrio ac

empathi i'r rhai yr effeithir arnynt, a chynllunio gofalus. Er bod adfer yn rhan annatod o bob agwedd ar ein prosesau gwydnwch, rydyn ni'n cydnabod bod angen cymryd camau mwy penodol i helpu i gryfhau'r gallu i adfer dros y tymor hwy.

3.133 Mae Fforymau Lleol yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gynllunio ar gyfer gweithgareddau adfer a'u darparu. Drwy weithio gyda'r sector gwirfoddol, y trydydd sector a'r ymatebwyr statudol cymunedol, bydd cynlluniau a phrotocolau adfer ar waith, gan helpu i sicrhau bod barn ac anghenion y rhai yr effeithir arnynt ynghyd â chymunedau a busnesau yn cael eu hystyried ac yn cael sylw.

3.134 Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i flaenoriaethu'r cyllid dyrannu i'r meysydd hynny sy'n cael yr effaith gadarnhaol fwyaf ac sy'n cyd-fynd â'r canlyniadau ar y cyd. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mwy mewn gwaith ataliol a pharodrwydd am argyfyngau. Pan fydd argyfyngau'n effeithio ar gymunedau, y dewis diofyn yw bod hyn yn cael ei reoli'n lleol. Mewn amgylchiadau eithriadol, fodd bynnag, caiff Llywodraeth Cymru ymyrryd i ddarparu cymorth ychwanegol. Er enghraifft, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid penodol i awdurdodau lleol yn 2020-21 i gynorthwyo rhaglen cynnal a chadw ar gyfer tomenni glo nas defnyddir.

3.135 Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yn y gymuned ymatebwyr a'r trydydd sector i adolygu a diweddaru **Trefniadau Cymorth Adfer Llywodraeth Cymru**, sy'n dwyn ynghyd drefniadau i gydlynu adferiad ar lefel genedlaethol, leol a chymunedol. Bydd hyn yn cynorthwyo dealltwriaeth gliriach o ble mae perchnogaeth yn gorwedd yn ystod pob rhan o'r daith adfer, gan egluro rolau a chyfrifoldebau i wneud yn siŵr bod y bobl iawn yn codi strategaethau adfer yn y dyfodol.

3.136 Mae cysylltiad annatod rhwng elfennau o ymateb ac adferiad, ac ni ddylem ganolbwyntio ar un yn fwy na'r llall. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â mudiadau gwirfoddol a thrydydd sector i gytuno ar eu rolau a'u swyddogaethau fel rhan o'n dull cydweithredol o ymdrin ag adfer.

3.137 Byddwn yn defnyddio canllawiau anstatudol i ddiffinio perchnogaeth genedlaethol a lleol ar bob rhan o'r daith adfer, gan egluro rolau a chyfrifoldebau i wneud yn siŵr bod y bobl iawn yn codi strategaethau adfer yn y dyfodol.

3.138 Byddwn yn sicrhau bod yr holl ganllawiau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, yn unol â safbwynt Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.

**Camau a gymerwyd:**

- Mae hyfforddiant Aur Cymru ar gyfer uwch arweinwyr yn cynnwys hyfforddiant i fod yn gynrychiolydd ar Grwpiau Cydlynu Adferiad.

## Ymrwymiadau hyd at 2030 a thu hwnt

### Lefel Cymru gyfan

3.139 **Gweithio gyda phartneriaid yn y Fforymau Lleol a'r trydydd sector i ddatblygu canllawiau adfer priodol** – Mae cysylltiad annatod rhwng elfennau ymateb ac adfer, ac ni ddylem ganolbwyntio ar un yn fwy na'r llall. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â mudiadau gwirfoddol a thrydydd sector i helpu i egluro eu rolau a'u cyfraniad fel rhan o'n dull cydweithredol. Byddwn yn nodi cyfrifoldebau cenedlaethol a lleol mewn canllawiau anstatudol ar gyfer pob rhan o'r daith adfer er mwyn helpu i sicrhau bod sefydliadau perthnasol yn cymryd camau i wella gallu a chynllunio adferiad.

3.140 Byddwn yn sicrhau bod yr holl ganllawiau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, gan weithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig mewn perthynas â Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.

## Cyfathrebu ac Ymgysylltu'n well a bod yn fwy Tryloyw

3.141 Mae cyfathrebu effeithiol yn hanfodol o ran sefydlu gwydnwch ac ymateb i argyfyngau ac adfer ar eu hôl. Mae hyn yn ymwneud nid yn unig â rhannu gwybodaeth o fewn y llywodraeth a sefydliadau sy'n ymateb, ond hefyd rhwng ymatebwyr a'r cyhoedd.

3.142 Mae cyfathrebu'n hanfodol i sicrhau bod asiantaethau partner yn rhannu'r wybodaeth berthnasol ac yn darparu cyngor sy'n berthnasol i'w rôl.

3.143 Mae gwybodaeth gywir ac amserol bob amser yn brin yn ystod argyfyngau. Mae natur argyfyngau a gofynion ymateb brys yn rhoi pwysau sylweddol ar ymatebwyr. Mae eglurder, bod yn gryno ac empathi yn nodweddion allweddol o gyfathrebu effeithiol, a dylai ymatebwyr ymgyrraedd at hyn wrth baratoi ac ymateb.

3.144 Bydd Llywodraeth Cymru yn helpu i sicrhau bod gan bobl yng Nghymru ddealltwriaeth dda o'r risgiau rydym yn eu hwynebu a chymryd y camau sydd eu hangen i baratoi ar gyfer argyfyngau.

3.145 Yn aml, ein cymunedau a'n hunigolion mwyaf agored i niwed yw'r rhai y bydd digwyddiadau ac argyfyngau yn effeithio'n anghymesur arnynt. Rydym yn cydnabod bod angen i ni weithio gyda phartneriaid lleol, a chyda chymunedau eu hunain i ddeall eu hanghenion ac i sicrhau bod cyfathrebiadau priodol yn cael eu datblygu i gynorthwyo gwell dealltwriaeth o risg a bod yn fwy parod.

3.146 Ar lefel leol, mae Cofrestr Risgiau Cymunedol yn canolbwyntio ar y risgiau sy'n cael y flaenoriaeth uchaf ym mhob ardal leol. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i **gryfhau'r gofynion sy'n ymwneud â chynhyrchu Cofrestrau Risgiau Cymunedol** er mwyn iddynt ystyried demograffeg y gymuned, yn enwedig grwpiau agored i niwed, a llywio sut gellir teilwra dulliau cyfathrebu i ddiwallu anghenion cymunedau (**gweler Atodiad 9**).

3.147 Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid sy'n ymateb i ddatblygu **cynllun cyfathrebu ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau Cymru gyfan**, a fydd yn adeiladu ar y trefniadau rhybuddio a rhoi gwybod presennol fel bod mwy o ymwybyddiaeth o'r hyn a ddylai ddigwydd yn ystod digwyddiadau mawr ac argyfyngau, gan ddefnyddio'r sianeli cyfathrebu mwyaf priodol. Bydd deall pa mor ymwybodol yw'r cyhoedd o'r risgiau rydym yn eu hwynebu, a pha mor barod ydynt ar gyfer argyfyngau, yn ganolog i'r gwaith hwn. Gan hynny, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i edrych ar opsiynau ar gyfer cynnwys Cymru yn yr arolwg blynyddol arfaethedig o ganfyddiadau'r cyhoedd o risg, gwydnwch a pharodrwydd. Yn y tymor hwy, byddwn yn edrych ar ymarferoldeb datblygu ein harolwg ein hunain ar gyfer Cymru os yw hynny'n briodol ac yn gost-effeithiol.

3.148 Rydym yn llwyr gydnabod y rôl hanfodol y gall unigolion, cymunedau, busnesau a'r sector gwirfoddol ei chwarae wrth ymateb i argyfyngau. **Byddwn yn edrych ar opsiynau i gyflawni'r amcanion cyfathrebu a ganlyn: rhoi gwybod i bobl yng Nghymru am y risgiau rydym yn eu hwynebu; annog pobl i weithredu ac ymddwyn mewn ffordd sydd ei angen i baratoi eu hunain a'u cymunedau; a meithrin dealltwriaeth y cyhoedd o'r camau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i baratoi ar gyfer argyfyngau**. Bydd y gwaith hwn yn ystyried anghenion cynulleidfaoedd, ffynonellau gwybodaeth ar-lein ac all-lein, cyfrifoldebau statudol partneriaid, a'r achos dros waith ymgyrchu newid ymddygiad.

3.149 Mae cynyddu atebolrwydd cyhoeddus ar risg hefyd yn flaenoriaeth allweddol, ac rydym eisiau bod yn fwy tryloyw yn ein dull gweithredu. Fel cam cyntaf, byddwn yn cyflwyno **datganiad blynyddol i'r Senedd** ar wydnwch a risgiau argyfyngau sifil. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am y darlun risg presennol, ein perfformiad gwydnwch, a'n sefyllfa bresennol o ran parodrwydd.

## Ymrwymiadau hyd at 2030 a thu hwnt

